# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 548 · Rhagfyr 2023 · 70c


# Llwyfan i'r Doniau

## Yr eisteddfod yn denu ymgeiswyr o bell ac agos

Cystadlu brwd a chanmoliaeth y beirniaid oedd hanes dau gyfarfod Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen eto eleni. Diolch i'r holl gystadleuwyr, a llongyfarchiadau i'r buddugwyr ar eu llwyddiant. Roedd beirniaid pob adran wedi eu plesio'n arw efo safon y perfformiadau llwyfan a'r cynhyrchion gwaith cartref.

Mae pwyllgor yr eisteddfod am fynegi eu gwerthfawrogiad o gyfraniad ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen fel aelodau'r Orsedd a phlant Ysgol Gynradd Llandygái a berfformiodd y Ddawns Flodau yn nefod gwobrwyo'r prif enillwyr llên. Bu canmoliaeth o sawl cyfeiriad i gyfraniad y plant a'r bobl ifanc i wneud yr achlysur yn brofiad cofiadwy i'r buddugwyr. Roedd urddas a chynhesrwydd yn y seremoni.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch hefyd am gefnogaeth trigolion y Dyffryn ar y nos Wener yn Neuadd Ogwen ac ar y dydd Sadwrn yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae hanes anrhydeddus i'r traddodiad eisteddfodol ym Methesda a'r cyffiniau, ac mae parhad a ffyniant yr ŵyl fel digwyddiad diwylliannol blynyddol yn bwysig iawn i ddyfodol ein hiaith yn yr ardal. Mae perfformwyr llwyfan yn dibynnu'n llwyr ar gynulleidfa, ac wrth gefnogi eisteddfodau lleol maen nhw'n haeddu cynulleidfa deilwng.

Yr eisteddfodau lleol ydy sail yr Eisteddfod Genedlaethol o ran meithrin doniau a hyder, ac mae gwaith Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn gymorth mawr drwy hysbysebu'r eisteddfod gan ddwyn y testunau i sylw darpar-ymgeiswyr ledled Cymru.

Cafwyd cefnogaeth ariannol y cynghorau cymuned eto eleni, a gwerthfawrogir eu hymrwymiad i'r traddodiad pwysig hwn.

**(mwy am yr eisteddfod y tu mewn)**



O'r chwith: Catrin Fflur Huws, Trefechan, Aberystwyth, enillydd y Fedal Ryddiaith; Buddug Watcyn Roberts, Tregarth; enillydd y Gadair; a Nel Roberts, Gerlan, enillydd Medal yr Ifanc.

### Beth am gefnogi eich eisteddfod leol yn ariannol? Ymunwch â Chlwb Cyfeillion Eisteddfod Dyffryn Ogwen

**Aelodaeth**: £12 y flwyddyn.
**Gwobr**: £25 bob mis.

**Gellir talu**:

1. Gyda siec (yn daladwy i 'Clwb Cyfeillion 'Steddfod Dyffryn Ogwen';
2. Arian, trwy law Walter Williams (Trefnydd), 14 Erw Las, Bethesda;
3. Trwy archeb banc.

**Manylion y cyfrif**:
Clwb Cyfeillion 'Steddfod Dyffryn Ogwen
Nat West Bangor 51- 61- 28.
Rhif y cyfrif: 11374993.



### NADOLIG 2023

O ddistryw stormydd estron – a difrod
Y dyfroedd torcalon,
Awn heno ar ein hunion
I araul hedd yr Ŵyl hon.

**Dilwyn Owen**

## NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N HOLL DDARLLENWYR

# Llais Ogwan

**Rhif 548**
**Rhagfyr 2023**


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Ieuan Wyn**.

Y golygydd ym mis Ionawr fydd **Dewi A. Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd, Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT 01248 602440
E-bost: dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Rhagfyr** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 18 Ionawr**, yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW**: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Dyddiadur y Dyffryn

**Rhagfyr**

14 Cymdeithas Jerusalem. Dathlu'r Nadolig. Parchg. Huw Pritchard. Festri am 7.00.
14 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
17 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00.
17 Naw Llith a Charol. Eglwys St. tegai am 6.00
19 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
27 Bwncath, Dafydd Goch a'r Dihirod, Dafydd hedd a'r Band. Neuadd Ogwen.
28 Celt, Soap, Ofergoelus. Neuadd Ogwen.

**Ionawr**

08 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00.
09 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
18 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (154) | Fred Buckley, Tregarth |
| £20.00 | (50) | Ceri Dart, Rhos y Nant, Bethesda. |
| £10.00 | (81) | Gwenno Jones, Gerlan. |
| £5.00 | (23) | Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |

**Gwobrau Blynyddol Arbennig**

| | | |
|---|---|---|
| £100.00 | (125) | Ann Williams, Gerlan. |
| £50.00 | (10) | Neville Hughes, Pant, Bethesda. |
| £25.00 | (35) | Huw Derfel Jones, Gerlan. |
| £15.00 | (147) | Margaret Roberts, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |

## Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

yng Nghapel Jerusalem
**Nos Sul, Rhagfyr 17 am 7.00yh**




Dewch i ddathlu'r Ŵyl yng nghwmni
**Côr Meibion y Penrhyn ac eraill**

GWNEIR CASGLIAD TUAG AT ACHOS DA.
**CROESO CYNNES I BAWB**

## Rhoddion i'r Llais

£65 Bryn Roberts, Caerdydd er cof am ei rieni, Caeron a Nancy Roberts, a'i chwaer Jois Snelson
£15 Ann Huws, Y Fali
£15 Gwynfryn Davies. Caernarfon
£10.50 Arthur Rowlands, Cefnddwysarn, er cof am Rhiannon
£20 John Ffrancon Griffith, Abergele, er cof am ei rieni, John (Jack) a Nesta Griffith
£10 Er cof am dad arbennig, Evan Wyn Jones (Ifan), 1 Dolhelyg, Talybont, a fuasai'n 80 oed mis yma (Cariad mawr am byth, Anna xx)
£10 Judith Hughes, Wenallt, Llangoed
£25 Alan Davies, Porthaethwy er cof am Bronwen a fu farw ym mis Rhagfyr 2017
£20 Er cof am Mr William John Evans, 15 Ffordd Llanllechid (helpar Siôn Corn) a Mrs Glenys Evans, Ceunant gan Gwil Rees, Karen, Tom a'r teulu, xx
£20 Er cof annwyl iawn am Dylan Rowlands oddi wrth Mam a Dad, Erw Las.
£20 Er cof am Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas oddi wrth Selwyn, Alwena, Nerys a Medwyn.
£20 Er cof am Llewelyn M. Jones, Talybont oddi wrth Enfys Jones.

£20 Er cof annwyl am Glyn (Garej Tregarth gynt) ar ei ben-blwydd dridiau cyn y Dolig! Oddi wrth Gwenda a'r teulu.

**Diolch yn fawr**

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

**Ffair Aeaf Eryri 2023**

Cafodd Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen lwyddiant mawr yn Ffair Aeaf Eryri ym mis Tachwedd, gyda'r clwb yn dod yn ail yn y cystadlu. Cynhaliwyd y Ffair Aeaf ar fferm Gwythrian yn Aberdaron eleni. Roedd y clwb yn cystadlu yn y cystadlaethau barnu carcas, ŵyn a gwartheg, creu cerdyn Nadolig, trimio oen a thorri cyw iâr.

Yn y gystadleuaeth creu cerdyn Nadolig, cafodd Catrin Jones drydydd a Glesni Owen bedwerydd. Daeth Catrin Jones yn ail yn y gystadleuaeth torri cyw iâr. Wrth farnu ŵyn, cafodd Leusa Morris drydydd yn y grŵp dan 16, Cian Rhys ail yn cystadlu dan 18, ac Eilir Davies ail yn y grŵp o dan 21. Yn y cystadlu yn y grŵp dan 30, daeth Sallie Roberts yn gyntaf yn barnu ŵyn a chafodd Iwan Harper drydydd. Wrth farnu bîff, daeth Iwan Harper yn drydydd yn y cystadlu dan 30.

Yn gyffredinol, daeth Clwb Dyffryn Ogwen yn fuddugol yn y tîm barnu ŵyn ac yn ail yn y tîm barnu bîff. Am y tro cyntaf eleni, gwobrwywyd aelod yn Farnwr Ŵyn Mwyaf Addawol - enillydd cyntaf y gwpan oedd cadeirydd Clwb Dyffryn Ogwen, Sallie Roberts.

Roedd y gystadleuaeth barnu carcas yn cael ei chynnal ar wahân yn Llanrwst. Cafodd Leusa Morris drydydd yn y cystadlu o dan 16, a chafodd Iwan Harper drydydd yn y cystadlu dan 30.

Mae hyn yn llwyddiant mawr i Glwb Dyffryn Ogwen. Hoffem ddiolch i'r holl aelodau a gymerodd ran yn y cystadlu ac i'r rhai a helpodd i wneud y diwrnod yn llwyddiannus. Diolch o galon hefyd i deulu Harper, Tŷ Newydd am gynnal ymarferion barnu.

Mae'r Clwb yn edrych ymlaen at weddill calendr 2023/2024.






## BOED HEDDWCH I BAWB DRWY'R BYD



# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlo**
Gyda thristwch mawr y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth un o gymeriadau Rachub, sef Derek Hughes, Maes Bleddyn. Bu farw wedi gwaeledd hir ar 14 Tachwedd ac yntau'n 85 mlwydd oed. Fel y dywedodd y Parch. Dafydd Coetmor Williams yn y fynwent yng Nghoetmor, "Un bychan o gorffolaeth oedd Derek ond yn meddu ar gymeriad mawr."

Ganwyd Derek ym Mhontuchaf i'w rieni Owie a Hannah Elin, i deulu cerddorol iawn. Roedd ei fam yn arwain côr plant llwyddiannus iawn yng nghanol y ganrif ddiwethaf, gan sicrhau sawl gwobr mewn eistedfodau ar hyd y gogledd. Roedd y plant, Margaret, Rhian, Irfon ac wrth gwrs Derek yn meddu ar leisiau cyfoethog. Ond roedd rhyw swildod yn eu mysg ac ni chlywyd eu lleisiau mor amal ag y dylsid dros y blynyddoedd. Yn wir, fe gafodd Derek ei wahodd i ymddangos ar raglen Opportunity Knocks a oedd yng ngofal Hughie Green. Gwrthod mynd wnaeth Derek gan ddweud, "Fedrai i ddim colli diwrnod o gyflog i fynd ar y sioe". Tybed beth fyddai wedi digwydd iddo? Arwr arall iddo oedd Roy Orbison.

Aros yn y chwarel wnaeth Derek ac yna priodi Jean 'Glanrafon' Rachub a hynny 62 o flynyddoedd yn ôl. Magodd y ddau chwech o blant – Kevin, Gwyn, Eurwyn, Gareth, Elen ac Iona. Roedd yn daid i chwech o blant ac yn hen daid balch iawn. Wedi gadael y chwarel bu'n rhan o'r gweithlu fu'n adeiladu Gorsaf Bŵer yr Wylfa, ac yna gweithio i Gyngor Sir Gaernarfon am gyfnod. Gorffennodd ei yrfa yn gweithio gyda Chyngor Bethesda.

Daeth tyrfa niferus i Fynwent Coetmor ar 21 Tachwedd i dalu'r deyrnged olaf i Derek, prawf pendant o'i boblogrwydd ymysg y trigolion lleol. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Jean, y plant a'r teulu oll yn eu colled mawr.
Mae Jean a'r teulu am ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn ystod y cyfnod trist yma. Hefyd i'r Parch. Dafydd Coetmor am ei wasanaeth yn y tŷ a'r fynwent, ac i Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr.

**Steve Bach**
Yn frawychus o sydyn ar y cyntaf o Dachwedd, fu farw Stephen Roberts (Steve Bach). Ar ran y teulu cyfan, hoffai Susan ddiolch i bawb am y cariad, y gefnogaeth a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod yr amser anodd ers colli Steve. Dros y mis diwethaf, mae wedi bod yn gysur mawr gwybod faint oedd Steve yn ei olygu i bawb a chael gwrando ar yr holl straeon gan bawb dros baned o de. Mae blanced gariadus Bethesda – unwaith eto – wedi amgylchu'r teulu a'u cysuro yn ystod bywyd byr Steve. Hoffai'r teulu hefyd ddiolch i Gareth Williams, yr ymgymerwr, Dyfed Roberts am y gwasanaeth, a hefyd i Dei Fôn am yr englyn a ysgrifennodd ar gyfer angladd Steve:

Y wên hael a gofiwn yw hi, - y wên
  Llawn hwyl a direidi,
Y wên sy'n atgof inni,
Ei wên ef yw'n cysur ni.

**Cyfarchion**
Nid yw Jean Hughes yn anfon cardiau Nadolig flwyddyn, yma ond mae hi'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

Mae Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu, ffrindiau a chymdogion.

## Capel Carmel

*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Rhagfyr 17: Oedfa Nadolig
Rhagfyr 24: Gwasanaeth
Ionawr 7: Parchg John Pritchard
Ionawr 14: Cyfarfod Gweddi
Ionawr 21: Parchg R.O. Jones
CROESO CYNNES I BAWB



**Yr Ysgol Sul**
Mae'r plant yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer gwasanaeth y Nadolig gan ddysgu carolau, ymarfer eu rhannau, a gwneud gwaith llaw i addurno'r capel. Mae Non, Beti, ac Elsi wedi bod yn peintio murlun mawr o'r doethion ar eu camelod yn dilyn y seren.
Cafodd plant bach dosbarth meithrin Ysgol Llanllechid eu croesawu i ysgoldy Carmel yn ystod y mis. Bu'r plant yn gwrando ar stori'r Nadolig ac yn canu'r garol 'Sêr y nos yn gwenu'. Mi gawson nhw hwyl wedyn wrth addurno eu sêr bach o bapur i'w rhoi ar y goeden Nadolig yn eu cartrefi. Diolch i'r plantos am ddod i ymweld â ni!

**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid**
Croesawyd yr hanesydd lleol André Lomosik i ystafell fawr y Clwb Criced, ar noson rewllyd o Dachwedd i ddangos lluniau ar sgrîn o adeiladau rhestredig ardal *Llais Ogwan*. Roedd llond ystafell o aelodau yn



**Dosbarth Gwau**
Diolch i'r aelodau sydd wedi bod yn brysur unwaith eto eleni ar gyfer ymgyrch 'Plentyn y Nadolig'. Maen nhw wedi gwau dros 80 o gapiau a 35 o blancedi ac, yn ogystal â hynny, wedi llenwi rhyw ddeg o focsys o anrhegion i blant. Diolch yn fawr iawn i'r merched i gyd am eu haelioni.



edrych ymlaen yn eiddgar i glywed sgwrs gan André, gan eu bod yn gwybod am ei ddawn drefnus fel ymchwilydd hanesyddol eisoes. Soniodd Dilwyn Pritchard yn ei gyflwyniad am yr ymchwiliadau swmpus o'i eiddo sy'n ymddangos yn *Llais Ogwan* ac i'w gweld ar silffoedd Llyfrgell Bethesda.

Yn ardal *Llais Ogwan*, ceir dros 200 o adeiladau rhestredig; 157 yn Llandygái, 66 yn Llanllechid, a 92 ym Mhentir. Canolbwyntiodd André ar blwyfi Llandygái a Llanllechid yn y sgwrs arbennig yma. Yn naturiol, mae nifer helaeth o'r adeiladau yma ym mhentref Llandygái a'r cyffiniau, oherwydd dylanwad cyfoeth teulu'r Penrhyn, a nifer hefyd yn Nhalybont sydd ym mhlwyf Llanllechid ond yn agos at Landygái.

Yr adeiladau a chreiriau sydd o ddiddordeb i ni yn yr ardal hon mae'n debyg yw Eglwys Llan, y cloc haul llechen bendigedig [1795] a saif y tu allan i'r eglwys, yn ogystal â'r ciosg ffôn (o gyfnod Siôr VI) sydd wedi ei leoli'r tu allan i'r 'Hen Bwl'! Mae ffermdai Coetmor, Coed Uchaf ac Abercaseg wedi eu rhestru, yn ogystal â chapeli Bethania, Bethesda, Jeriwsalem, Shiloh ac Eglwys Glanogwen. Mae tafarndai'r Fictoria, King's Arms a'r Douglas wedi eu rhestru - hefyd, pontydd, cerrig milltir, pileri llechi, tolldai a 'Thŷ Pwyso' ar yr hen A5. Wrth gwrs, mae'n amlwg fod adeiladau hanesyddol fel Tŷ John Iorc yn rhestredig, yn ogystal â Phlasdy a Melin Cochwillan. Mae'n anodd credu nad oes unman yn Rachub a Chaellwyngrydd sy'n haeddu statws o ryw fath; mae'n siŵr nad ydych yn brin o syniadau...yr Hen Gwt Barbar efallai?... Ysgoldy Carmel? ... Tŷ Madam Chips? Dyna ddigon ar y breuddwydio! Diolch yn fawr, André, am y gwaith ymchwil manwl!

Cofiwch am y cyfarfod nesaf – Nos Fercher, Ionawr 31, 2024, am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced. Bydd Meirion Davies yn sôn am 'Ysgol yr Eglwys, Rachub rhwng 1874 a 1914.'

**Cyngor Cymuned Llanllechid**

**Adroddiad Cyfarfod Tachwedd**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd ar y 8fed yn Festri Capel Bethlehem. Rydym wedi derbyn yr holl taliadau dyraniad tir pori, a gyrwyd y ddogfennau i Gaerfyrddin.

Cafwyd adroddiad gan y Cyng Wyn Bowen-Harries o gyfarfod blynyddol Ynni Ogwen. Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gefnogol iawn o'r prosiect a'i lwyddiant.

Mae wedi dod i'n sylw gymaint o ysbwriel sydd mewn nifer o leoliadau o fewn y plwyf. Mae'n drist iawn i'w weld, a phenderfynwyd gyflogi unigolyn i godi'r ysbwriel.

Cynhaliwyd ras fynydd OMM yn ddiweddar gyda 1800 o redwyr yn cymryd rhan. Hoffem longyfarch y trefnwyr am y llwyddiant eleni.

Nadolig Llawen iawn i bawb, a Blwyddyn Newydd Dda.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Croeso i'r Ardal**

Mae Meryl a Kevin Read wedi symud i fyw i Sŵn y Coed, Waen Wen o Fangor. Pob dymuniad da a hapusrwydd i'r ddau yn eu cartref newydd. Wedi symud i Lanfairpwll mae Arfon ac Eva Thomas, cyn-berchnogion Sŵn y Coed, a dymunir yn dda iddynt hwythau hefyd a gwellhad iechyd i Arfon.

Dymuna Arfon ac Eva ddiolch yn fawr iawn i drigolion Waen Wen am y cyfeillgarwch a charedigrwydd dros y 40 o flynyddoedd ers iddynt symud yma i fyw o Dalybont. Dywed y ddau fod yr atgofion yn rhai hapus iawn.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Arfon ac Elizabeth Evans, 39 Cae Garnedd, (gynt o fferm Penhower Uchaf) ar ddod yn hen nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Mali Swyn yng Nghaerdydd i Llio, eu hwyres, ac Eugene ei gŵr. Maent yn edrych ymlaen yn fawr i gael gweld y fechan yn fuan!

**Enillydd Loteri**

Dim bob dydd y mae rhywun yn adnabod rhywun sydd wedi dod yn filiwnydd dros nos! Dyna ddaeth i ran Ceri Ann Roscoe Roberts o Benrhos. Mae Ceri yn ferch i Susan Roscoe a'r diweddar Gwyn, 44 Bro Infryn. Dywed Ceri nad yw hi na'i gŵr am roi gorau i'w gwaith ond am brynu tŷ mwy i'r teulu o bump o blant ac efallai car newydd iddi hi a'i gŵr Paul. Llongyfarchiadau mawr i ti Ceri - gwobr haeddiannol iawn!

**Cylch Glasinfryn**

Braf oedd croesawu bob un o aelodau'r Cylch i gyfarfod Tachwedd, gyda dau ymwelydd. Cyflwynodd Mair ein gŵr gwadd, Mr Joe Hughes, o Fethesda oedd yn enedigol o'r pentref ac yn gyfaill gydol oes i nifer o'r aelodau. Mae Joe wedi casglu nifer o luniau ac eitemau dros y blynyddoedd, ac 'roedd ganddo storïau difyr am sut yr oedd wedi dod yn berchen arnynt. Dechreuodd ei sgwrs drwy ddangos lluniau wedi ei mowntio o'r tai ac adeiladau'r pentref gan ddweud eu hanes a'r cymeriadau oedd yn byw yn y pentref yn y 19G, mewn ffordd hynod gartrefol a doniol. Soniodd am Glwb y Gegin, clwb i'r henoed oedd yn cyfarfod ar bnawn Gwener gyda bws yn casglu'r aelodau o blwyf Pentir a thu draw. Beth sydd yn arbennig yw fod Joe wedi cadw Llyfr Lloffion o'r gweithgareddau ynghyd â lluniau ac erthyglau. 'Roedd pawb wedi mwynhau'r pnawn arbennig yng nghwmni Joe. Rhoddwyd y diolchiadau gan Glenys.

Fis nesaf, 14 Rhagfyr, awn allan am bryd o fwyd amser cinio i Felin Seiont ym Mhontrug. Wedi ysbaid dros y Nadolig bydd y cyfarfod nesaf 10 Ionawr am 2yp gyda Llinos Morris yn rhoi sgwrs am 'Hunan Ofal'. Mae croeso mawr i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan.

**CLWB HANES RACHUB, CAELLWYNGRYDD A LLANLLECHID**

**Nos Fercher, Ionawr 31ain 2024**

**am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced**

**Bydd sgwrs gan**

**DR MEIRION DAVIES**

**'YSGOL YR EGLWYS, RACHUB RHWNG 1874 A 1914'**

**CROESO CYNNES!**

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
constructionline
ECA
CHAS

**SIOP OGWEN**
yn cynnig gwasanaeth
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**
**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**
**600763 neu 07708 008051**
**GWASANAETH DYDD A NOS**



## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Merched y Wawr**
Ein gwraig gwadd am y mis hwn oedd Cath Parri. Bu hi'n sôn am deulu Abram Wood ac eglurodd am gysylltiad ei mam a'i thad ag Abram Wood. Roedd yn amlwg wedi ymchwilio llawer i'w hanes ac wedi cael dipyn go lew o wybodaeth o'r llyfr *Sipsiwn Cymru*. Defnyddiodd Cath Parri offer technegol i ddangos lluniau oedd yn berthnasol i'w sgwrs.

Roedd teulu Abram Wood yn un o'r teulu mwyaf o sipsiwn yng Nghymru, ac roeddent yn nodedig am fod yn gerddorion o fri. Mor niferus oedd y teulu, nes i'r ymadrodd teulu Abram Wood ddod yn enw cyffredin ar sipsiwn yng Nghymru. Bu farw Abram Wood yn 1799 a chafodd ei gladdu ym mynwent Llangelynin. Cafwyd cyfarfod difyr iawn yn nghwmni Cath Parri.

**Cwis Hwyl Cenedlaethol Merched y Wawr**
Fe fu nos Wener, Tachwedd 10, yn noson i'w chofio i gangen Rhiwlas o Ferched y Wawr. Dyma noson y Cwis Hwyl cenedlaethol blynyddol, un y mae'r gangen wedi ei hennill deirgwaith dros y blynyddoedd, ac eleni daeth deg tîm o ranbarth Arfon at ei gilydd i roi cynnig ar gyrraedd y brig. Neuadd Goffa Bethel oedd y man cyfarfod a chafwyd noson hwyliog iawn gyda lluniaeth, yn baned a theisennau blasus amrywiol, yn cael eu gweini hanner ffordd drwy'r Cwis, diolch i aelodau croesawus a gweithgar cangen Bethel.

Cangen Dinbych aeth â hi yn y pen draw, gydag 85 o farciau allan o 100, ond roedd Rhiwlas, Penrhos 1 a Bethel yn dynn wrth eu sodlau gydag 84 marc yr un! Tipyn o bluen yng nghap rhanbarth Arfon! Bu'n rhaid i'r tri thîm fynd ymlaen wedyn i ateb cwestiwn datglwm, ac ar sail yr atebion i hwnnw, sef 'Sawl llofnod gafwyd ar Ddeiseb Heddwch Merched Cymru ym 1923?' Dyma oedd y canlyniad ar ddiwedd y noson: 1af Dinbych (85); 2ail Penrhos 1; 3ydd Rhiwlas; a 4ydd Bethel.

Aelodau tîm Rhiwlas oedd Linda Jones, Nia Mair Jones, Kate Wheelock ac Annes Glynn.

**Clwb Rhiwen**
Aeth yr aelodau i ymweld ag Oriel Ynys Môn. Roedd llawer wedi troi allan y diwrnod hwnnw, gan fod y tywydd yn braf, ac roedd amryw yn eistedd allan. Diolch i Ann Williams am drefnu.

**Y Goeden Nadolig**
Braf yw gweld coeden Nadolig ym Mro Rhiwen eto eleni. Rhoddwyd y goleuadau ymlaen ar y goeden Nadolig nos Sadwrn 25 Tachwedd, gyda chriw da o bobl a phlant yn mynychu'r achlysur. Mwynhawyd siocled poeth a chacennau, ynghyd â chanu Carolau, oddi amgylch y goeden. Diolch i Gyfeillion Rhiwlas am eu gwaith yn trefnu'r achlysur.

## Rhwng Bethlehem a'r Groes

### Llyfr newydd o ddiddordeb lleol a chenedlaethol

Mae Barry 'Archie' Jones wedi sgwennu cyfrol yn rhoi cefndir ei ganeuon, ac mae o'n siŵr o fod yn llyfr poblogaidd iawn yma yn Nyffryn Ogwen gan ei fod o gan un o'n hogia ni ac yn werth ei gael. Ei deitl ydi *Rhwng Bethlehem a'r Groes*, sef enw un o ganeuon Archie ar gyfer y band Celt. Fel y gwyddom, mae'r band gyda'r mwyaf poblogaidd yng Nghymru ers ei ffurfio yn niwedd yr 1980au, ac mae'n nhw'n dal i ddenu cynulleidfaoedd efo'u perfformiadau grymus o'r caneuon sydd wedi hen sefydlu'n glasuron.

Mae 'Rhwng Bethlehem a'r Groes' yn un o anthemau mawr Archie –

Rhywle'n oriau mân y nos
Clywir pregeth wallgo bost
A mae'r amser wedi dod;
Wyt ti'n fodlon byw dy oes
Rhwng Bethlehem a'r groes?

Does dim angen dyfynnu mwy – mae ganddo gymaint o ganeuon cofiadwy. Ond beth am gefndir y cyfansoddwr yma o Rachub? Sut a pham y daeth yn aelod o fand? Pa straeon sydd y tu ôl i ambell gân o'i eiddo? Dyma'r gyfrol i chi!

Mae'r bennod gyntaf yn mynd â ni yn ôl at wreiddiau Archie yn Nyffryn Ogwen a'r gân 'Rachub':

'Crafu'r barrug oddi ar y ffenast a gweld Rachub am y tro dwetha' oedd llinell agoriadol y gân gyntaf go iawn i mi sgwennu. A doedd hi ddim yn galw am fawr o ddychymyg o'm rhan i.

'Ma' Rachub yn bentref bychan yn Nyffryn Ogwen, tua milltir i'r mynyddoedd o Fethesda, ac yn gartref i ryw naw cant o bobol, a be sy'n teimlo fel pymtheg miliwn o ddefaid. Roedd ein tŷ ni yn un o chwe deg o dai ar stad cyngor Maes Bleddyn. Roedd y tai yn gallu bod yn uffernol o oer, yn enwedig yn y gaeaf, ac roedd crafu'r barrug oddi ar du fewn ffenest y stafell wely'n rhywbeth oedd yn rhaid ei wneud yn gyson yn ystod y gaeaf...'

*Rhwng Bethlehem a'r Groes*, Barry 'Archie' Jones, Gwasg Carreg Gwalch, £8.00. Ar gael yn Siop Ogwen.

# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN

**Plant Mewn Angen**
Braf oedd gweld pawb yn eu dillad eu hunain neu wedi gwisgo i fyny ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen, a diolch i griw Blwyddyn 2 am wasanaeth arbennig yn egluro ychydig mwy am yr elusen a phwy mae'r elusen yn ei helpu.



**Dreigiau'r Dyffryn**
Mae'r criw cyntaf o blant wedi cael bod yng Nghampfa Dreigiau'r Dyffryn yn mwynhau ar yr holl offer arbenigol. Cafodd y plant modd i fyw a phawb wedi blino'n lan ar y ffordd yn ôl i'r ysgol. Braf hefyd oedd cael llogi a gwneud defnydd o Fws Ogwen. Gan fod y plant wedi cael gymaint o hwyl mae'r ysgol wedi trefnu bod gweddill dosbarthiadau Abercaseg yn cael mynd yn eu tro. Diolch i Sophie Pipe oDreigiau'r Dyffryn a Phartneriaeth Ogwen am gludo'r hen blantos i Goed y Parc!

**Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**
Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Roedd holl blant y ddwy ysgol wedi bod yn brysur yn arlunio, gwneud gwaith llaw a rhai o ddisgyblion Pen-y-bryn wedi mentro efo'u llawysgrifen! Yn wir, cafodd sawl un wobr haeddiannol ar y llwyfan gan gynnwys yr unawdwyr a pharti llefaru a'r côr o Ysgol Pen-y-bryn. Da iawn chi, mae holl staff Abercaseg a Phen-y-bryn yn hynod o falch i bob un wan jac ohonoch! Diolch hefyd i'r staff amryddawn sydd yn y ddwy ysgol am eich hyfforddi.

**Ffair Nadolig**
Cynhaliwyd Ffair Nadolig llwyddiannus dros ben gan gyfeillion yr ysgol yn ddiweddar. Roedd Neuadd Ogwen yn fwrlwm o brysurdeb llawn amrywiaeth o stondinau, crefftau gan y plant, tombola enfys, cwmnïau lleol ac yn bwysicach fyth y dyn ei hun - Siôn Corn! Diolch i'r cyfeillion am drefnu a diolch i bawb am gefnogi.



**Clefyd Siwgr**
Bu disgyblion Ysgol Pen-y-bryn yn gwisgo glas er mwyn codi ymwybyddiaeth at Glefyd Siwgr. Diolch i ddwy eneth ddewr iawn, Evangaline ac Ayla o Flwyddyn 4 a 5, am gyflwyno stôr o wybodaeth i weddill yr ysgol a son am eu profiadau hwy o fyw â'r cyflwr.

**Pêl-droed**
Cafodd tîm pêl-droed merched Ysgol Pen-y-bryn a thîm y bechgyn y fraint o groesawu dau dîm o Ysgol Tregarth ar bnawn braf ym Mhlas Ffrancon. Braf oedd cael cymysgu a gwneud ffrindiau newydd. Mae tîm y bechgyn yn gobeithio efelychu llwyddiant y merched yng nghystadleuaeth yr Urdd ar y 1af o Ragfyr....Edrychwn ymlaen at ddarllen yr hanes yn rhifyn nesaf y Llais!

**Bocsys Esgidiau T4U**
Yn dilyn llwyddiant casglu bocsys sgidiau'r llynedd, roedd disgyblion y ddwy ysgol yn awyddus i gefnogi'r apêl i unwaith eto eleni drwy greu bocsys yn llawn anrhegion ar gyfer plant llai ffodus. Casglwyd nifer sylweddol o focsys o'r ddwy ysgol yn barod i'w hanfon I Ddwyrain Ewrop. Diolch i'r holl rieni am eich cefnogaeth.



**Casglu sbwriel**
Bu plant Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-bryn yn brysur iawn yn ddiweddar yn helpu, Anna o Bartneriaeth Ogwen, Chris o 'Gwyrdd Ni' a Morgan Swyddog Cynnal Ogwen i gasglu sbwriel o amgylch yr ardal. Cafodd pob dosbarth gyfle i gasglu sbwriel a hefyd i gael sgwrs am bwysigrwydd peidio â llygru a'r effaith mae hyn yn cael ar ein hamgylchedd a bywyd gwyllt. Da iawn pawb am weithio mor galed yn tacluso'n hardal ni.

**Noson Ffilm**
Braf oedd gweld llond neuadd o blant yn mwynhau noson 'pictiwrs' yn Abercaseg. Yr hen ffefryn Disney 'Toy Story' oedd yn eu diddanu, heb anghofio diod a phop-corn wrth gwrs! Yn dilyn llwyddiant y noson, mae Ysgol Abercaseg yn dymuno cynnal nosweithiau tebyg yn fisol.

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Miss Ffion Jones, Ysgol Penybryn, a'r teulu oll ar golli ei brawd. Hefyd i Mrs Catrin Jones, Ysgol Abercaseg ar golli ei thad yng nghyfraith. Mae ein meddyliau gyda'r teuluoedd ar yr adeg anodd hon.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr Llais Ogwan, cadwch olwg yn y rhifyn nesaf o'r Llais am holl hanesion, anturiaethau a dathliadau'r Ŵyl o'r ddwy ysgol!

# YSGOL TREGARTH

### Myfyrwyr

Croeso cynnes i'r tair myfyrwraig o Brifysgol Bangor fu hefo ni am wythnos yn ddiweddar yn arsylwi. Bydd y tair yn dychwelyd ym mis Ionawr am gyfnod ar brofiad ysgol. Croeso atom i Ysgol Tregarth a gobeithio y byddwch yn mwynhau'r cyfnod.

### Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Bu'r parti llefaru yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar gan ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i'r criw fu'n cystadlu am y tro cyntaf erioed. Profiad arbennig i'r disgyblion, a diolch yn fawr iawn i Miss Griffith am hyfforddi'r criw. Hefyd, da iawn Caitlin o ddosbarth Ffrydlas a gafodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth llawysgrifen. Taclus a chreadigol iawn, Caitlin!





### Athletau

Mae plant ysgol Tregarth wedi bod yn brysur yn ymarfer ar ôl ysgol ar gyfer y gystadleuaeth athletau dan do gafodd ei threfnu gan 'Byw'n Iach'. Cystadleuaeth ble mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trac a maes yn erbyn ysgolion eraill Gwynedd. Dangoswyd sgiliau tîm arbennig a bod yr holl ymarferion wedi talu eu ffordd. Diolch i 'Byw'n Iach' am drefnu.

**Plant mewn angen**

Roedd hi'n ddiwrnod lliwgar iawn ar ddiwrnod plant mewn angen pan gafodd plant Ysgol Tregarth ddod i'r ysgol yn eu pyjamas a chymryd rhan mewn cystadleuaeth gwallt gwirion. Casglwyd £90 tuag at yr achos. Da iawn chi!



### Ymweliad Ysgol Dyffryn Ogwen

Cafodd blwyddyn 6 gyfle i dreulio'r diwrnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar a chael blas ar fywyd yr ysgol. Cafodd y disgyblion brofiadau hwyliog a diddorol yn yr Adran Dyniaethau, Celf, Ffrangeg a Iechyd a Lles. Hefyd, cawsom weld perfformiad o'r sioe 'Olifar'. Diolch am ddiwrnod gwych.

# Astudio'r Gymraeg – cyfleoedd diddorol i bobl ifanc

Cyn hir, bydd disgyblion yn cwblhau ceisiadau i fynychu prifysgolion. Mae'n debyg y bydd llawer eisoes yn gwybod yn union y cwrs y dymunant ei ddilyn, eraill rhwng dau feddwl neu heb wneud penderfyniad pendant.

Yn wahanol i'r disgyblion hyn fydd cyn hir yn gadael coleg trydyddol neu chweched dosbarth, gadael swydd lawn amser wnes i, a hynny'n ôl yn 2015 i ddilyn cwrs gradd mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Roedd gennyf ddiddordeb yn y Gymraeg mae'n debyg o oedran cynnar iawn. Dylanwad yr aelwyd, y capel ac Ysgol Dyffryn Nantlle fu'n gyfrifol am hau'r hedyn ynof.

Cyn mentro'n ôl i fyd addysg, credwn fod gennyf wybodaeth a dealltwriaeth eithaf o'r iaith, ond rŵan, o edrych yn ôl, sylweddolaf mai prin iawn ydoedd. Wyth mlynedd yn ddiweddarach sylweddolaf faint y cyfoeth a dderbyniais wrth astudio'r pwnc. Rwy'n ymwybodol fod disgyblion yn cael eu cyflwyno i sawl agwedd ddiddorol wrth ei hastudio ar gyfer arholiadau TGAU, a hyd yn oed fwy wrth astudio ar gyfer Lefel A. Ond, mae'r agweddau a'r wybodaeth a gyflwynir o astudio'r pwnc ar gyfer gradd yn anhygoel.

Yn 2015, fi oedd yr unig fyfyriwr hŷn yn fy mlwyddyn, ond ddaru hynny ddim amharu dim ar y profiad, gan fod pob un o'r myfyrwyr yn hynod glên a phob darlithydd yn gefnogol a chroesawus. Cefais fy nghyflwyno i fodiwlau megis Llên y Cyfnod Modern Cynnar, Theatr Fodern Ewrop, Barddoniaeth Fodern, Sgriptio, Medrau Cyfieithu, Gweithdy Rhyddiaith, a hynny i enwi dim ond rhai. Er bod ambell fodiwl yn apelio'n fwy na'i gilydd, gallaf ddweud yn hollol onest i mi fwynhau'r cyfan. Wedi graddio, aeth llawer o fy nghyd-fyfyrwyr ymlaen a dilyn gyrfa ym myd addysg, cyfieithu, y cyfryngau, newyddiaduraeth, golygu, cyhoeddi a llawer mwy. Mae'n bwnc sy'n agor drysau led y pen, felly peidied neb â meddwl ei fod yn bwnc di-werth. Dychwelyd a pharhau i gwblhau cwrs Meistr, ac yna PhD wnes i, gan i mi fwynhau'r daith ddysgu.

Fy nghyngor fyddai i neb ddiystyru'r Gymraeg fel pwnc Lefel A na phwnc gradd. Gallaf eich sicrhau na wnewch chi ddifaru. Ewch amdani!

**Bethan Lloyd Dobson** - Intern – Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc
Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor

# YSGOL BODFEURIG

**Dathlu 70**

Ydych chi'n cofio 1953? Faint oedd eich oed? Roedd llawer o gyffro wedi bod yn dathlu coroni'r Frenhines Elisabeth, ond i griw o blant Mynydd Llandygái roedd yn amser cyffrous am reswm arall oherwydd ym mis Medi 1953 agorwyd Ysgol Bodfeurig ar y safle bresennol. Roedd y plant yn edrych ymlaen i gael ysgol newydd sbon gyda pethau modern fel rheiddiaduron, cwpwrdd sychu ac wrth gwrs yr olygfa orau erioed!

Ymlaen â ni 70 o flynyddoedd ac mae disgyblion dosbarth Ogwen wedi bod yn brysur iawn yn dysgu am sut le oedd yr ysgol – beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol? Coron ar y cyfan oedd prynhawn agored ymysg rhai o'r cyn-ddisgyblion – rhai heb fod yn yr ysgol ers dros 50 o flynyddoedd! Cafwyd cyfle i sgwrsio a phori dros hen luniau a dysgu mwy gan rai oedd yma cyn ni.

Diolch o galon i bawb ddaeth i'r prynhawn agored ac i'r rhai rannodd luniau efo ni.



### Capsiwl Amser

Yn ystod y prynhawn agored cafwyd llawer o drafod am gapsiwl amser gafodd ei gladdu o bosib 40 o flynyddoedd yn ôl, ac un arall gladdwyd tua 20 mlynedd yn ôl. Roedd cyffro mawr ymysg y disgyblion wrth feddwl tybed beth oedd yn y capsiwlau. Erbyn hyn, rydym wedi cael llawer o wybodaeth am leoliad y capsiwl amser gladdwyd 20 mlynedd yn ôl.

Ydych chi'n cofio claddu capsiwl 40 mlynedd yn ôl? Os ydych chi, cysylltwch gyda'r ysgol i ni gael gwybod mwy!

Clywodd newyddiadurwyr o'r BBC am y capsiwlau amser a daeth criw ffilmio acw i holi'r plant am y digwyddiad ac roedd y newyddion ar raglen Newyddion Ni. Maent yn awyddus i ddod yn ôl i'r ysgol os bydd mwy o wybodaeth yn dod i law!

### Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Bu plant yr ysgol yn brysur iawn yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen – roeddem yn falch iawn o rai o'r disgyblion am gamu ar y llwyfan am y tro cyntaf erioed! Profiad gwych! Bu pawb arall yn brysur gyda'r celf a chrefft. Llongyfarchiadau i griw o'r ysgol gafodd wobrau mewn arlunio, ffotograffiaeth, lluniau digidol a llawysgrifen. Da iawn i bawb arall am eu hymdrech ac am gefnogi'r Eisteddfod.

### Cyngerdd Pier Bangor

Does dim byd gwell i roi rhywun yn ysbryd y Nadolig na chyngerdd Nadolig, felly braf oedd cael gwahoddiad i ganu mewn cyngedd ar Pier Bangor. Roedd plant yr ysgol yn perfformio ymysg llawer o artistiaid eraill ac roedd yn brofiad arbennig iawn. I ddiweddu, gwelwyd y goleuadau Nadolig yn cael eu troi ymlaen a chafwyd gwledd o dân gwyllt. Diolch o galon am y gwahoddiad – plantos Bodfeurig 'di joio!

Mae plant a staff yr ysgol yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y *Llais*!





## LLON YW'R ŴYL SY'N LLENWI'R AELWYD

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Capel Shiloh Newydd**

Oedfaon yn Shiloh am yr wythnosau nesa' am 5 o'r gloch.
Rhagfyr 17 - Gwasanaeth Teulu y Nadolig
Rhagfyr 24 - Oedfa Cymun dan ofal ein Gweinidog, Dr Ian Morris, am 5 o'r gloch, ac nid am 6 o'r gloch fel y nodwyd yn y *Llais* fis Tachwedd.
Rhagfyr 31 - Geraint Roberts, Llandegfan
Ionawr 7 - Olaf Davies, Llandegfan
Ionawr 14 - Dr Ian Morris
Ionawr 21 - Geraint Roberts, Llandegfan

Mae un o flaenoriaid y capel yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar Ragfyr 10, sef Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm. Rydym i gyd am ddymuno pen-blwydd ardderchog iddi ac am ddiolch iddi am oes o wasanaeth yn Shiloh, lle bu hefyd, hyd yn ddiweddar, yn drysorydd y capel am gyfnod o bedwar deg o flynyddoedd a mwy. Mawr yw ein diolch iddi.

**Drws Agored**

Casglwyd £400 yn ystod boreau Gwener yn Shiloh yn ddiweddar a braf ydi cael cyhoeddi ein bod wedi rhannu'r arian fel hyn:
£200 i Hosbis Dewi Sant
£100 i'r cylchgrawn Y *Gwyliedydd*
£100 i Gweithredu Dros Blant
Diolch i'r holl aelodau a ffrindiau Shiloh am eich caredigrwydd yn cyfrannu tua neilltuo tegannau, offer molchi etc i blant ac ieuenctid drwy Gweithredu Dros Blant. Bu'r ymdrech yn llwyddiant mawr eto 'leni.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**

Nos Lun, Tachwedd 6, croesawyd yr aelodau i Festri Capel Shiloh gan y llywydd, Carol Jones. Braf iawn oedd cael llond y lle o aelodau ac yn eu plith dair dysgwraig sydd newydd ymaelodi gyda'r gangen. Eleni mae 41 o aelodau, a'r gangen yn mynd o nerth i nerth.

Braf iawn oedd cael gŵr a gwraig ifanc o Fethesda, sef Heledd ac Adam, i sôn am eu mis mêl hynod o ddiddorol. Penderfynodd y ddau y byddent yn mynd i ddathlu eu priodas yn cerdded rhan o'r Ffordd Sidan yn y dwyrain. Mae'r Ffordd Sidan wedi bod mewn bodolaeth ers yr ail ganrif Cyn Crist a gellir cerdded rhannu ohoni hyd heddiw mewn gwledydd megis Kazakhstan ac Ubekhistan. Yn y gorffennol pell defnyddid rhwydwaith o ffyrdd i fasnachu, ac yn arbennig i gludo sidan o Tseina i wledydd y gorllewin ac yn eu tro i anfon nwyddau o'r gorllewin i wledydd y dwyrain. Bu Heledd ac Adam yn treulio rhai wythnosau yn crwydro ar y Ffordd Sidan a chafwyd ganddynt luniau a disgrifiadau o'r bobl a wnaethant eu cyfarfod ynghyd â'r anturiaethau a ddaeth i'w rhan. Noson ddiddorol, addysgiadol a hwyliog. Diolchwyd i'r ddau am baratoi mor drylwyr ar ran y gangen gan Mary Jones. Cafwyd cystadleuaeth a oedd yn cynnwys gwaith sidan, ac ymysg yr enillwyr oedd Jên Margiad Morris, Margaret Jones ac Alwenna Puw.

Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig gyda chinio yng Nghlwb Rygbi Bethesda nos Lun, Rhagfyr 4.

Ni fydd cyfarfod ym mis Ionawr ond byddwn yn cyfarfod ar Chwefror 5 gyda noson yng nghwmni Angharad Griffiths, Bethesda dan y teitl 'Bwyta'n Iach'. Croeso cynnes i bawb am 7.30 yn Festri Capel Shiloh Newydd.

**Gair o ddiolch**

Hoffai Stephen Davis, priod y ddiweddar Magwen Davis, Maud ei mam, a Ceri ei chwaer, ynghyd â'r holl deulu, ddiolch o waelod calon am bob gair o gysur, yr holl garedigrwydd a wnaethant ei dderbyn drwy gyfrwng ymweliad, cardiau, llythyrau a rhoddion ariannol i Hosbis Dewi Sant er cof am Magwen annwyl. Diolch i'r gynulleidfa niferus ddaeth i'r angladd yn Hen Golwyn. Gwerthfawrogant yr holl garedigrwydd a dderbyniodd y teulu gan gymaint o ffrindiau a chydnabod Magwen ym mhob rhan o Gymru.

**Llongyfarch Artist**

Llongyfarchiadau i Rhiannon Gwyn, Gorffwysfa, Sling ar dderbyn cyllid gan Cyngor Celfyddydau Cymru, sef grant fydd yn ei galluogi i ymchwilio a datblygu prosesau creadigol wrth weithio gyda deunyddiau a thirwedd lleol yma yn Nyffryn Ogwen. Bydd yn cydweithio gydag Amgueddfa Lechi, Llanberis, Parc Cenedlaethol Eryri a Chanolfan Grefft Rhuthin tra hefyd yn cael ei mentora gan grefftwyr ac arbenigwyr celfyddydol. Dros y chwe mis nesaf bydd yn dod i adnabod deunyddiau naturiol lleol y gellir eu casglu ac arbrofi gyda nhw i gynhyrchu corff arbrofol o ymchwil i'w arddangos. Edrychwn ymlaen i glywed mwy am y prosiect diddorol yma. Pob hwyl gyda'r gwaith, Rhiannon.

**Gwesty Aduniad**

Ar y rhaglen deledu Gwesty Aduniad a gynhyrchir gan y cwmni teledu Darlun, o Gaernarfon, yn ddiweddar bu Guto Williams, Tal y Cae, yn sôn am y profiad o gael ei fabwysiadu yn faban gan Nesta a Iolo Wyn Williams, ac am ei daith yn ceisio dod o hyd i'w fam geni a gweddill ei deulu. Bu'r broses yn hir ac anodd, a gyda help Gweithwyr Cymdeithasol llwyddwyd i uno Guto gyda'i ddwy hanner chwaer. Newyddion ardderchog i Guto. Diolch i ti am fod mor ddewr i ddweud yr hanes a hynny mor ddidwyll ac annwyl.



**Profedigaeth**

Daeth newyddion am ddwy brofedigaeth yn ardal Tregarth yn ystod Mis Hydref a Tachwedd.

Ar Hydref 24, yn ei gartref 26, Maes y Garnedd, Bethesda, ond yn wreiddiol o Maes Ogwen, Tregarth, bu farw Gareth Vaughan Roberts yn 50 oed. Roedd yn fab i Teresa a'r diweddar Wil Mec Roberts, yn dad i Daniel, Kelly a Leanne, ac yn frawd i'r diweddar Iona. Bu ei angladd yn Eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth ar Dachwedd 7. Cydymdeimlwn gyda'r holl deulu yn eu galar.

Daeth y newyddion trist ar Dachwedd 1af am farwolaeth Brenda Wyn Jones yn Ysbyty Gwynedd a hithau'n 89 oed. Ers rhai misoedd roedd Brenda wedi cael gofal yng Nghartref Plas y Garnedd, Llanfairpwll. Roedd yn enedigol o Fethesda ond roedd hi a'i diweddar ŵr, Buckley Wyn, wedi cartrefu yn Cae Derwen, Tregarth ers blynyddoedd. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Dachwedd 20. Cofiwn am Brenda fel athrawes yn Ysgol Dr Williams, Dolgellau ac Ysgol Bodedern lle bu hefyd yn Ddirprwy Brifathrawes ac wedyn yn ddarlithydd yn y Coleg Normal ym Mangor. Yn yr holl swyddi roedd yn fawr ei pharch.

Cofiwn amdani hefyd fel llenor hynod o amryddawn a gyhoeddodd nifer fawr o gyfrolau ar gyfer plant ac oedolion.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000*

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Dyma hi yn fis Rhagfyr unwaith eto. Mis edrych ymlaen at ymweliad arbennig Siôn Corn. Santa Clôs oedd o i ni yn aml iawn pan yn blant, enw sy'n tarddu o Sant Nicolas. Mae pawb yn gwybod y gân adnabyddus sy'n cael ei chanu i'w groesawu i bob parti Nadolig, sef 'Pwy sy'n Dŵad Dros y Bryn.' Un o ganeuon J. Glyn Davies, Lerpwl, ydy hon a byddai ei ganeuon yn cael eu hymarfer ers talwm gan gôr arbennig iawn sef Côr Plant Ysgol y Cefnfaes, pan oedd Miss Jennie Thomas yn athrawes yno, a hynny yn y 1920au cynnar. Mae'r caneuon i'w cael yn *Cerddi Huw Puw* a *Cerddi Robin Goch*. Mwy na thebyg mai dyma'r tro cyntaf i'r enw Siôn Corn gael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at yr henwr hynaws gan ddod ag ef i lygaid y cyhoedd mewn llenyddiaeth. Yn wir, mae'n cael ei ddefnyddio, o ganlyniad i hyn mae'n debyg. gan Jennie Thomas yn *Llyfr Mawr y Plant 3* mewn stori am blant yn ysgrifennu llythyr at Siôn Corn sef 'Teganau Nadolig.'

**Pancan**. Soniais y tro diwethaf am y defnydd o'r gair hwn. Un enghraifft ydy "Mi ges i bancan efo'r car newydd!" Dw i wedi dŵad i wybod mai ei ystyr o ydy 'cnoc', 'tolc', 'ergyd', a'i fod o'n dŵad yn wreiddiol o'r gair Saesneg 'pank' sy'n golygu curo brigau coeden afalau er mwyn i'r ffrwyth syrthio.
**Rhegi**. Er mwyn mynegi syndod neu fraw, mi fyddwn ni'n ebychu ac yn rhegi, a hynny drwy ddefnyddio geiriau sydd wedi dod o fyd crefydd. Rhag bod yn euog o bechu drwy cablu, yr arferiad oedd newid geiriau crefyddol drwy eu 'stumio. Dyma rai: 'lesgob! (cyfuniad o 'Iesu' ac 'esgob'); 'Dêw', 'Duwc', 'Duwcs', ''Duwch'; 'Dewadd', 'Duwadd annw'l' (o 'Duw'); 'Rargol annw'l', 'Argol fawr' ac 'Argian fawr' (o 'Arglwydd'); 'Argoledig! (cyfuniad o 'Arglwydd' a 'bendigedig'); 'Diawch' (Diawl); 'diawchedig' (o 'diawledig'); 'neno'r tad' (o 'yn enw'r Tad', sef Duw); 'Men diain ni' (o 'Myn Duw i ni').

Erstalwm, pe baech chi'n dweud 'Duw' neu 'Arglwydd' mewn sgwrs bob dydd, byddai rhywun yn siŵr o ddweud "Peidiwch â defnyddio enw Duw yn ofer!"

Mae yna regfeydd o fath gwahanol, wrth gwrs – rhai hyll o anweddus. Erstalwm, pan fyddai rhywun mewn oed yn clywed rhywun ifanc yn rhegi felly byddai'n dweud "Llai o'r araith 'na!" Byddai ambell un yn dweud yn fygythiol fel hyn: "Gwylia di, neu mi fyddan nhw'n llnau dy dafod di efo brws weirs!"
**Pres a ballu**. Efo'r rhan fwyaf o bobol yng nghanol argyfwng costau byw, a nifer fechan o bobol efo cyfoeth mawr, mae hyn yn ein hatgoffa o ddywediadau sy'n ymwneud ag amgylchiadau byw. Yn gyntaf, pennill o'r chwarel erstalwm yn cyfeirio at y goruchwyliwr ar y pryd, Dafydd Davies, ac at y 'belwrs', sef y rybelwyr, y prentisiaid ifanc a oedd yn clirio'r rwb - y rwbel - ar y ponciau.

'Dafydd Dafis, ei fol o'n codi,
Belwrs bach, cael cyflog mwnci.'

Ac o sôn am bres, dyma rai dywediadau. Mae hwn am y cyfoethog – y 'cefnog': "Mae pres yn dŵad allan o'i glustia' fo." Bydd rhywun heb fod yn gefnog – 'ar waelod yr ystol'. Â medda ni pan fyddwn ni'n achwyn am brisiau pethau yn y siopa', "Dw i'n gorfod talu trwy 'nhrwyn am y peth lleia".

**AMBELL AIR AC YMADRODD**
**paldaruo**. Siarad lol ydy ei ystyr. "Glywist ti hwn'na'n paldaruo?"
**yli**. Daw hwn o 'weli di', hynny ydi 'edrycha di'. "Yli, mae gin ti ddigon o bres i dalu dy hun!"
**caes**. Ffordd o ddweud y gair 'cas' ydi o. "Roedd yr athrawes yn gaes wrth y plant." Mae o'n enghraifft o air sy'n wahanol ar lafar i'r hyn ydy o yn ysgrifenedig, fel 'ffos' yn mynd yn 'ffoes', a 'rhwd' yn mynd yn 'rhwyd'.
**milan**. O 'milain' y daw hwn, a'i ystyr yma ydy 'bod mewn hwyliau drwg'. "Roedd hi'n filan bod y siop wedi cau a hitha' wedi mynd yno yn un swydd."
**tegins**. Dyma'r gair a glywid am addurniadau tŷ – llestri tseini a chrochenwaith, a rhai wedi torri hefyd. 'Tegan' oedd y gair am un, a chlywid pobl yn cyfeirio'n falch at yr 'iâr degan' yn y cwpwrdd gwydr neu'r 'ddau gi tegan' ar y silff ben tân.
**sgwennu**. 'Sgwennu', meddan ni am 'ysgrifennu'. Pan fydd rhywun efo llawysgrifen daclus mi ddwedwn ni "Mae gyno fo/hi sgrifan dda", ond pan fydd yr sgrifen yn flêr, mi ddwedwn ni fod y sgrifen 'bob sut', 'fel traed brain' neu'n 'rwtsh-ratsh'.
**gollwng tida**. Pan fo baban yn 'hel dannedd' a'r dannedd ar 'fin torri' yna byddant yn aml yn gollwng poer neu yn glafoerio ychydig o ochr y geg a dywedir eu bod yn 'gollwng tida'
**brat**. Dyma'r gair a ddefnyddiwn am y gorchudd a ddefnyddiwn dros ein dillad, gan ei rwymo yn y cefn, er mwyn arbed y dillad rhag mynd yn fudr wrth wneud y llnau neu goginio. Mae barclod a ffedog yn cael eu defnyddio hefyd, a brat bras ydy un trwchus, trwm a garw ar gyfer gwaith arbennig o fudr. Tybed beth ddwedwch chi, ynteu a ydy'r geiriau yn diflannu gan nad oes lawer o neb yn eu gwisgo bellach.

Hoffwn ddiolch am ohebiaith a dderbyniais yn ystod y mis, dau a dweud y gwir gan yr un person, ond yn anffodus yn ddienw. Roeddwn wrth fy modd yn eu derbyn. Diolch am eich geiriau caredig. Mae'r cyfrannwr yn rhannu rhai o'r geiriau roedd yn eu defnyddio ers talwm:
**bach** – yn ogystal â'r ansoddair gall hefyd olygu yr hyn a wnawn i gi sef 'rhoi bach' iddo, sy'n fath o anwes drwy dynnu llaw yn addfwyn dros y pen – 'rhoi mwytha'.
**cefn** – yn ogystal â darn o'r corff, gall olygu 'bod yn gefn' i rywun sef eu cynnal drwy drafferthion neu ddangos cefnogaeth, ac mae 'hen gefn' yn ffordd o ddisgrifio hen gyfaill. Hefyd, mae'r gair 'cefn' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhan o fynydd neu fryn, sef crib neu drum. Un felly bychan ydi'r Gefnan ym Mynydd Llandygái.
**mechan i** – ffordd addfwyn o gyfeirio at ferch.
**cyw** – eto ffordd glên o gyfeirio at berson neu blentyn.
**chwip din** – does dim cymaint o gyfeirio ato bellach 'dwi'n bur sicr, os nad ydio'n sôn am dîm yn cael eu curo mewn gêm fel pêl-droed neu rygbi drwy gael 'cweir' neu 'chwip din iawn', yn enwedig os byddan nhw wedi colli'n ddifrifol.

Gan ddymuno cyfarchion y tymor i bawb, cofiwch anfon gair at y flwyddyn newydd - Mary Jones 42 Erw Las Bethesda LL57 3NN, 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Cyfarchion**
Gan mai hwn yw rhifyn olaf y flwyddyn, anfonwn ddymuniadau diffuant am Ŵyl dangnefeddus i'n ffrindiau oll yn y Dyffryn. 'Fedr hi ddim bod yn Nadolig llawen i bawb, ond gobeithio caiff pob un ohonom fendith a chysur yng nghwmni teulu a ffrindiau dros Ŵyl y Geni.

**Llongyfarchiadau hwyr!**
Ymddiheuraf i Billy, 32 Cae Gwigin, sydd wedi pasio ei brawf gyrru ers saith mis, a minnau heb sylwi bod gennym yrrwr newydd dros y ffordd ! Dymunwn flynyddoedd o yrru'n hapus a saff iti, Billy.

**'Arian' i Gymru!**
Mae Carl Owen, Tyddyn Iolyn, mab Sheila, 'Millbank', yn chwaraewr pŵl o fri. Ym mis Tachwedd, fel aelod o garfan Pŵl Cymru, bu'n cystadlu ym Mhencapwriaeth Ewrop



Medalau Pŵl Carl

(yr *European Blackball Championship*) a gynhaliwyd eleni ar Ynys Melita. Chwaraeodd y Cymry yn wych, gan lwyddo i gyrraedd y Rownd Derfynol a dod adref efo Medal Arian. Dyma'r wythfed Bencampwriaeth Ewropeaidd i Carl gymryd rhan ynddi. Yn ystod y blynyddoedd rheiny, mae carfan Cymru wedi cyrraedd y Rownd Derfynol bum gwaith, gan ennill y Fedal Aur deirgwaith a'r Fedal Arian ddwywaith.
Dalia ati, Carl, i ddod â chlod i'th wlad a'th ardal!

**Brysiwch wella!**
Dyna ddymuniad pawb o'r ardal i'n ffrindiau sy'n sâl gartref, mewn ysbytai neu mewn Cartrefi Gofal.

Mae Hugh Hughes (Hughie Post) wedi bod yn wael iawn yn Ysbyty Gwynedd, ond mae'n dda gennym ddeud 'fod o'n well o lawer erbyn hyn.

Aed â Neville Fernley, Helyg, i'r ysbyty ar frys ychydig o wythnosau'n ôl. Deallwn ei fod yntau'n ymateb i'w feddyginiaeth, a gobeithio caiff ddod adref cyn bo hir.

Mae Linda, Sŵn y Nant, ynghanol ei thriniaeth. Anfonwn gariad a dymuniadau da iddi hithau, ac i Rhiannon, 15 Cae Gwigin, sydd wedi mynd i'r Felinheli, i 'Cerrig yr Afon' am ychydig o wythnosau i gryfhau.

Wedi cael penglin newydd mae Cora, Melin Cochwillan. Mae pawb mor falch drosti, oherwydd rydym i gyd yn ymwybodol o'r boen enfawr mae hi wedi'i dioddef ers misoedd lawer. Anrheg Nadolig werth chweil, 'dw i'n siwr.

# Y Gerlan

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Michele Gould, Gwernydd, ar ei swydd newydd yng Ngholeg Llandrillo yn ddiweddar. Mae hi yn awr yn gweithio fel darlithydd mewn Gofal a Nyrsio Oedolion. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

**Gwellhad Buan**
Gyrrwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i bawb sydd wedi bod yn wael neu sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan i Mair Griffith, Ffordd Gerlan, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar.

Mae Menai Morris, Gwaun Gwiail, wedi bod yn yr ysbyty hefyd ond deallwn ei bod adref yn cryfhau erbyn hyn.

Gobeithio bod Lois Williams, Ffordd Gerlan, hefyd yn cryfhau ar ôl triniaeth ddiweddar yn yr ysbyty.

Gwellhad buan i'r tair ohonoch.

**Medal yr Ifanc yn dod i'r Gerlan**
Llongyfarchiadau i Nel Roberts 'Rallt Uchaf a enillodd Fedal yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen ym mis Tachwedd. Dan ni'n falch iawn ohonach di, Nel, ac yn edrych ymlaen i ddilyn dy yrfa yn y maes yma dros y blynyddoedd nesaf.

**Llongyfarchiadau**
Mae Ellen Gould, 12 Gwernydd, wedi ennill Gradd MA, 2:1 mewn Hanes ym Mhrifysgol Bangor.
Mae taid a nain, a'r teulu oll yn falch iawn ohoni, ac yn ei llongyfarch yn fawr.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Rhagfyr 17; Oedfa Nadolig.
Rhagfyr 24: Dim Oedfa.
Rhagfyr 31: Mr Richard Parry Jones, Caernarfon.
Ionawr 07: Parchg John Pritchard.
Ionawr 14: Parchg Eric Jones.
Ionawr 21: Parchg Megan Williams.
Croeso cynnes i bawb.

## Eglwys St Cross

**Bore Coffi**
Diolch i bawb am gefnogi'r Bore Coffi ar y dydd Mawrth cyntaf bob mis ers i ni ail-ddechrau ym mis Mai diwethaf. Mae wedi bod yn bleser cyfarfod gyda'n gilydd unwaith eto a chroesawu ffrindiau, hen a newydd. Rydym am gael seibiant ym mis Ionawr, felly *DIM* Bore Coffi ar Ionawr 2il, ac yn ail-ddechrau ar Chwefror 6ed.

**Gwasanaethau y Nadolig**
Dydd Sul, Rhagfyr 24ain - Noswyl y Nadolig: Gwasanaeth Carolau am 11 o'r gloch
Dydd Llun, Bore Nadolig: Gwasanaeth Cymun am 11 o'r gloch
Dydd Sul, Rhagfyr 31ain: Gwasanaeth ar y cyd i holl eglwysi ym Mro Ogwen am 10 o'r gloch yn Eglwys Crist, Glanogwen
Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nhal-y-bont a'r Dyffryn.

**Manylion cyswllt – atgoffâd**: Gellir cysylltu â'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd, ar 01248 361521, ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys ymweliadau bugeiliol, cymun cartref, priodasau, bedyddiau, angladdau, a chladdu ym mynwent yr eglwys. Mae Warden yr Eglwys hefyd ar gael: Catrin Hobson, ar 07881802882.


**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

# Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2023

**Canlyniadau Gwaith Cartref**
**Adran Celf a Chrefft**
**Coginio**

Blynyddoedd 3 a 4: 1af: Macsen Elis Williams 2il: Morgan Williams, Ysgol Pen-y-bryn 3ydd: Hanna Rogers, Ysgol Pen-y-bryn
Blynyddoedd 5 a 6 1af: Addison Elis Williams, Ysgol Llanllechid 2il: Cati Williams, Ysgol Pen-y-bryn 3ydd: Ava Watts, Ysgol Pen-y-bryn

**Gwaith Creadigol – Cywaith**

Oedran Meithrin: 1af: Ysgol Rhiwlas 2il: Ysgol Llanllechid
Adran Babanod: 1af: Ysgol Llanllechid (Y 7 cysgadur) 2il: Ysgol Llanllechid (Nant Ffrancon) 3ydd: Ysgol Sul Carmel
Adran Iau: 1af: Grŵp Evie, Ysgol Llanllechid 2il: Ysgol Sul Carmel 3ydd: Grŵp Kieran, Ysgol Pen-y-bryn

**Gwaith Creadigol – Unigol**

Blwyddyn 3: Gwaith 2D neu 3D: 1af: PYRSI, Ysgol Llanllechid 2il: Loti Thomas, Ysgol Pen-y-bryn 3ydd: Greta, Ysgol Pen-y-bryn
Blwyddyn 4: 1af: Hannah Roberts, Ysgol Pen-y-bryn 2il: Joseff Vieira, Ysgol Llanllechid 3ydd: Evangeline Sonnex, Ysgol Pen-y-bryn
Blwyddyn 5: Gwaith 2D neu 3D:
1af: Efa Gwen Owen, Ysgol Llanllechid
2il: Efan Williams, Ysgol Llanllechid Blwyddyn 6: Gwaith 2D neu 3D: 1af: Currig Vieira, Ysgol Llanllechid

**Ffotograffiaeth**

Ysgolion Cynradd. 1af: Fern Dyer, Ysgol Bodfeurig 2il: Noah Cooper Jones, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Fern Dyer, Ysgol Bodfeurig

**Cardiau Cyfarch**

Ysgolion Cynradd. 1af: Catrin Jones, Ysgol Llanllechid 2il: Emilia Hughes, Ysgol Llanllechid 3ydd (cydradd): Anna Isaac a Lauren Williams, Ysgol Llanllechid

**Creu Llun Digidol ar Gyfrifiadur**

Blwyddyn 3: 1af: Jasper Williams, Ysgol Pen-y-bryn 2il: Macsen Davies, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Nel Owen, Ysgol Llanllechid
Blwyddyn 4: 1af: Leo Montgomery, Ysgol Llanllechid 2il: Marley Perry, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Fern Dyer, Ysgol Bodfeurig

**Arlunio**

Meithrin: 1af: Ela Bardsley, Ysgol Llanllechid 2il: Anna Roberts, Ysgol Llanllechid 3ydd: Henri Hughes, Ysgol Llanllechid
Derbyn: 1af: Ifan Roberts, Ysgol Llanllechid 2il: Noa Dafydd, Ysgol Llanllechid 3ydd: Nyla Roberts, Ysgol Llanllechid
Blwyddyn 1: 1af: Tristain Scotson, Ysgol Llanllechid 2il: Hannah Parry, Ysgol Llanllechid 3ydd: Theo Watts, Ysgol Abercaseg
Blwyddyn 2: 1af: Charlie Evans, Ysgol Abercaseg 2il: Lwsi Morris, Ysgol Llanllechid 3ydd: Minnie Holyfield, Ysgol Abercaseg
Blwyddyn 3: 1af: Elsi Ann Burgess-Williams, Ysgol Llanllechid 2il: Ianto Wyn Burgess-Williams, Ysgol Llanllechid 3ydd: Florence Williamson, Ysgol Bodfeurig
Blwyddyn 4: 1af: Elin Burnell, Ysgol Llanllechid 2il: Noa Cooper-Jones, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Joseff Vieira, Ysgol Llanllechid
Blwyddyn 5: 1af: Elain Owen, Ysgol Llanllechid 2il: Jasmine Gamon, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Evie Artell, Ysgol Pen-y-bryn
Blwyddyn 6: 1af: Addison Elis Williams, Ysgol Llanllechid 2il: Mabli Sturrs, Ysgol Pen-y-bryn 3ydd: Cian John, Ysgol Llanllechid
Blynyddoedd 7, 8 a 9: 1af: Gwen Puw, Ysgol Dyffryn Ogwen 2il: Emily Williams, Ysgol Dyffryn Ogwen 3ydd (cydradd): Neveah Roberts ac Efa Hardy-Griffith, Ysgol Dyffryn Ogwen

Blwyddyn 5: 1af: Osian Emlyn, Ysgol Llanllechid 2il: Anabel Newstead, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Lili Herbert, Ysgol Llanllechid
Blwyddyn 6: 1af: Mared Williams, Ysgol Llanllechid 2il: Mair Walmsley, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Efan James, Ysgol Llanllechid

**Llawysgrifen**

Blwyddyn 2: 1af: Mabon Ronstead, Ysgol Bodfeurig 2il: Emily Reid, Ysgol Bodfeurig 3ydd: Alfie Fasmer, Ysgol Bodfeurig
Blynyddoedd 3 a 4: 1af: Eban Llwyd Hughes, Ysgol Llanllechid 2il: Llio Evans, Ysgol Pen-y-bryn 3ydd: Nel Davies, Ysgol Pen-y-bryn
Blynyddoedd 5 a 6: 1af: Caitlin Potter, Ysgol Tregarth 2il: Mili Roberts, Ysgol Llanllechid 3ydd: Mai Griffith, Ysgol Llanllechid

**Adran Agored. Celf**: **unrhyw ddarn o waith creadigol**

1af: Sam Valentine, Ysgol Dyffryn Ogwen
2il: Mia Evans, Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd: Nel Ria, Ysgol Dyffryn Ogwen.

**Llenyddiaeth**
**Llên Agored** *Barddoniaeth*

Y Gadair: Buddug Watcyn Roberts, Tregarth
Englyn: John Ffrancon Griffiths, Abergele (gynt o Fethesda)
Englyn ysgafn: Elen Edwards, Caernarfon
Limrig: Megan Richards, Aberaeron

*Rhyddiaith*
Y Fedal Ryddiaith: Catrin Fflur Huws, Trefechan, Aberystwyth
Stori fer: Catrin Fflur Huws, Trefechan, Aberyswyth

**Llên yr Ifanc**

Medal yr Ifanc: Nel Roberts
Cydradd 2il: Osian Rowlands a Hannah Ellis
Bl. 7-9 – cerdd neu ddarn o ryddiaith
1af: Gruff Beech
Cydradd 2il: Lloer Davies a Gwenno Beech
Cydradd 3ydd: Arawn Gwilym a Math Pritchard y cwbl o Ysgol Dyffryn Ogwen)
Bl. 10 ac 11 – cerdd neu ddarn o ryddiaith
1af: Lois Ryder
Cydradd 2il: Seren Roberts a Lloer Gwilym
Cydradd 3ydd: Robyn Parsons Smith a Dwynwen Pritchard (y cwbl o Ysgol Dyffryn Ogwen)

Ysgolion Cynradd Dyffryn Ogwen
*Barddoniaeth*
1af: Elain Owen
Cydradd 2il: Mared Williams ac Alaw Owen
Cydradd 3ydd: Ela Evans ac Efa Gwen (y cwbl o Ysgol Llanllechid)
*Stori* 1af: Leo Simone
Cydradd 2il: Elain Owen ac Anna Isaac
3ydd: Amelia Ball
(y cwbl o Ysgol Llanllechid)


JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

# EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN 2023



Dawns Flodau plant Ysgol Llandygai



Lleisiau'r Mignedd, y côr buddugol



Bl 2. Mila 1af Unawd. Bela 1af Llefaru, 2il Unawd. Beti 3ydd Unawd, 3ydd Llefaru. Alaw 2il Llefaru, 3ydd Unawd (i gyd o Ysgol Llanllechid)



Unawd offerynnol Bl 6 ac iau. 1af Lili Williams, Ysgol Llanllechid



Gwenno Roberts, Tregarth - Buddugol ar yr Unawd Offerynnol



Llefaru - Dosbarth Derbyn. 1af Noa Dafydd. 2il Noa Milldoon. Cydradd 3ydd Now ac Eidda (i gyd o Ysgol Llanllechid)



Seren, Ysgol Llanllechid, 1af Llefaru - Meithrin



Gruffudd Beech, 1af Perfformiad Dramatig. Hefyd y wobr am Berfformiad Mwyaf Addawol Ysgol Dyffryn Ogwen



Evie, Ysgol Llanllechid - Enillydd Tarian Perfformiad Cerddorol Gorau



Llun - Parti Llefaru Cynradd. 3ydd Ysgol Tregarth



Côr neu barti Bl 6 ac iau. 1af Côr Ela Grace, Ysgol Llanllechid



Llefaru Bl 1. 1af Efa Fflur, 2il Efa Rhos, Cydradd 3ydd Nanw ac Aila



Llefaru - Meithrin. 2il Noa; Cydradd 3ydd Myfi (Ysgol Llanllechid)

Mili Roberts, Ysgol Llanllechid, 1af Dawnsio Disgo Bl 6 ac iau. Lili Herbert, Ysgol Llanllechid, Bl 6 ac iau, 1af Llefaru. 2il Dawnsio Disgo



Eban Hughes, Ysgol Llanllechid - Enillydd Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru





Llun - Parti Llefaru Cynradd. 1af Ysgol Llanllechid




Parti Llefaru Cynradd. 2il Ysgol Penybryn

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

## Eglwys Sant Cedol, Pentir

**Te Bach**
Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar y prynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch, a bydd y Te Bach yn ail-gychwyn ar y 6ed o Fawrth 2024. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Gwasanaethau'r Nadolig**
Noswyl Nadolig – Dydd Sul 24 Rhagfyr:
9.30yb – Carolau
9yh – Cymun Bendigaid

Dydd Sul 30 Rhagfyr;
10yb – gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Crist Glanogwen.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb ac mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Hoffwn fel eglwys ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion dalgylch y *Llais*. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.


**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys, cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
**ADEILADWYR**
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**lsturrs@googlemail.com**



# Eliffant ar y Lôn Bost

**Derbyniwyd y llun isod drwy law Gerallt Pennant ac ymddangosodd yn rhifyn y mis diwethaf. Cafwyd ymateb iddo ac fe'i cyhoeddir isod.**



Pan oeddwn i yn hogyn bach flynyddoedd lawer yn ôl, cyn yr Ail Ryfel Byd, 'doedd yna ddim llawer o gerbydau yn gyrru ar y ffordd bost, ac felly gallasai pobol gerdded yn bwyllog ar y lôn a ninnau, blant, chwarae yn ddiogel heb fawr o bryder cael ein taro gan gar sionc neu blisman slei. A 'doedd o ddim yn rhyfeddod chwaith ambell dro dod wyneb yn wyneb ag eliffant yn cerdded yn hamddenol, gyfeillgar, ac yn amlwg yn falch o'i ryddid yn hytrach na'i gaethiwed mewn caets. A pherthyn i syrcas neu siou a fyddai'r eliffant bid sicr, a dyna oedd hanes y lymbar clustiog yn y llun sy'n troedio Ffordd Telford ger yr Helyg yn Nant y Benglog.

Fe ddaeth y syrcas deithiol i Fethesda rywbryd yn niwedd y tri degau ac mae'r ddau lun isod yn cadarnhau y cyfnod a'r amgylchiad – yr un eliffant a'r un dyn sydd yn y tri llun. Dw i'n amau mai ei gerdded o stesion Bangor i Fethesda oedd yr eliffant pan dynnwyd y llun tra bod gweddill anifeiliaid y siou yn cyrraedd efo trên arbennig i stesion Bethesda. Oes yna rywun yn digwydd cofio beth oedd enw'r syrcas deithiol honno – Bertram Mills efallai?

P'run bynnag, gwnaeth dyfodiad y syrcas i Fethesda dipyn o argraff oherwydd fe ysbrydolodd Jennie Thomas a J O Williams i sgwennu amdani. Ar y pryd, yr oedd yr awduron yn cynllunio'r gyfrol gyntaf yng nghyfres *Darllen a Chwarae*, cyfres amrywiol a lliwgar ei chynnwys ar gyfer plant o bob oed. Jennie wnaeth ddisgrifio campau'r eliffant fel hyn – "Beth ydyw'r anifail mawr llwyd yma? ... Gwelwch, y mae ganddo drwyn hir iawn. Rhaid mai eliffant ydyw yr anifail hwn.... Dacw'r plant yn taflu ceiniog iddo. Y mae'r eliffant yn codi'r geniog gyda blaen ei drwnc, ond nid ydyw yn ei rhoi yn ei geg. Na, a beth a wna'r eliffant yn awr? Dacw'r dyn yn rhoi afal iddo. ..."Ho, ho, ho, Tric Newydd bob tro", ebe'r eliffant wrtho'i hun, a llyncu'r afal ar un gwynt."

Cyfraniad J O oedd sgwennu cerdd 'Y Siou Fawr', a dyma ran ohoni yn unig –

Mae siou ar ei ffordd
I'n tref fach ni,
Ac y mae hi'n un dda
Meddent hwy i mi.
Mi welais ei llun
Ar wal yn y stryd;
Nae hi'n glamp o siou
Y fwya'n y byd.
'Roedd yno ddau deigar,
Rhai ffyrnig a chry',
A'u cegau yn barod
I'm llyncu fel pry.
A llewod a bleiddiaid
Ac eirth gwyn a du,
Ac eliffant mawr, -
Wel, cymaint â thŷ.

Ddaw y siou deithiol fyth yn ôl i Fethesda, a welwn ni ddim eliffant yn rhodio llwybrau Dyffryn Ogwen fyth eto. Bellach erys datganiadau lu yn erbyn bychanu anifeiliaid er mwyn sbort. Ond eto fyth, erys yr hen swyn a'r cyfaredd mewn cyfnod a berthyn o hyn allan yn y cof yn unig.








Llun o waith Peter Fraser yn Darllen a Chwarae 1

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI


RHAN 14

**9 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Masnachwr blawd a'i deulu oedd yn byw yn rhif 9 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871, ond mae cyfeiriad ato yn byw yn Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1869. Roedd **Richard Hughes** a'i wraig Mary ill dau wedi eu geni yn Llanidan, Sir Fôn. Roedd Richard yn 76 oed a Mary yn 61 oed yn ôl y cyfrifiad. Roedd dwy ferch a dau ŵyr yn aros gyda hwy ar ddydd y cyfrifiad, sef Catherine Jones (Hughes) a oedd yn 29 oed ac wedi ei geni ym Mhenmynydd, ac Elizabeth Humphreys (Hughes) yn 22 oed, a anwyd ym Methesda. Richard James a William James Jones oedd enwau'r ddau ŵyr, Richard yn 5 oed ac wedi ei eni ym Methesda, a William James yn 1 oed ac wedi ei eni yn Efrog Newydd, UD. Merch o'r enw Catherine Evans oedd y forwyn ac roedd hi wedi ei geni ym Methesda.

Yng nghyfrifiad 1881 mae Catherine yn byw ym Mangor gyda'i gŵr, Benjamin Jones, a'r ddau fab. Mae William yn nodi mai yn yr UD y ganwyd ef ond ei fod yn '*British Subject*'.

Mewn erthygl a ymddangosodd yn *Y Tyst Cymreig* Rhagfyr 17, 1869, cawn hanes cymdeithasau adeiladu a oedd yn y cylch rhwng 1854 a 1869. Rwyf yn cynnwys yr adroddiad yn ei gyfanrwydd."



*O'R TWR LLECHI*

*Addawsom yr wythnos ddiweddaf y buasem yn rhoddi i chwi restr o Gymdeithasau Adeiladu yr Ardal, yn nghyd ag enwau eu swyddogion. Ceisiwn gyflawni yr addewid honno yn bresennol, Ein hamcan wrth roi y rhestr yw hyn:- Y mae yn perthyn i'r cymdeithasau hyn rai miloedd o bersonau yn wahanol rannau o'r Gogledd, - un ai trwy fod eu harian neu eu tai ynddynt,- ac mai nifer lluosog ohonynt yn ddiweddar wedi cael colledion trymion iawn trwy fod rhai o'r cymdeithasau wedi myned yn fethiant oherwydd camdrefn ac ---. Er mwyn i'r wlad gael gwybod pwy yw swyddogion y gwahanol gymdeithasau yr ydym yn eu cyhoeddi yn y Tyst," Ac os cawn hamdden yn y dyfodol bydd i ni osod ger eich bron y sefyllfa yn mha un y maent yn bresennol, - hynny yw y rhai hynny ac sydd yn argraffu balance sheet; ond drwg gennym ddywedyd fod yma rai na byddant byth yn gwneud hynny. Wedyn yr awn trwy yr holl restr, a'u sefyllfa, rhoddwn i chwi rai o weithrediadau rhai personau yn nglyn a'r cymdeithasau hyn, er gosod y wlad ar ei gwyliadwriaeth rhagddynt yn y dyfodol. Y gymdeithas gyntaf ddaw i'n sylw yw y "Douglas Arms Benefit Building Society." Cynhelir hon yn y Douglas Arms Hotel. Yr ysgrifenydd yw Mr David Lloyd, Brynllys, St. Ann's, Slate Inspector. Yr ymddiriedwyr ydynt, Mri Wm. Jones, Coed-y-Parc, chwarelwr; Robert Roberts, Brynllwyd, chwarelwr; John Hughes, Glangors, Pwyswr; Owen Jones, Cilfoden, chwarelwr. Yr un personau sydd wedi bod yn swyddogion yn y gymdeithas hon o'r dechreuad, ac y mae hynny yn werth mawr i bob cymdeithas, ond iddynt fod yn ddynion gofalus a chywir. Cynhelir cyfarfodydd y Gymdeithas y nos Fawrth cyntaf ar ôl y tal yn chwarel Cae-braich-y-cafn. Cymdeithas derfynol 15 mlynedd yw, ac y mae yn awr yn 12 oed.*

***Rhif. 2** a ddaw dan ein sylw yw y "Victor(ia) Benifit Building Society." Cynhelir hon yn y Cefnfaes Vaults. Yr ysgrifenydd yw **Mr Richard Hughes**, Ogwen Terrace, Bethesda, flour merchant, Yr ymddiriedolwyr ydynt, Mri Griffith Thomas, Blaen-y-cae, Bethesda, chwarelwr; John Williams, Tŷ'n-y-ceod, Agent; David Davies, Mount Pleasant, Fitter. Yr un personau sydd wedi bod yn swyddogion yn y gymdeithas hon hefyd er y dechrau. Cynhelir cyfarfodydd y gymdeithas nos Iau cyntaf ar ôl y tal yn chwarel Cae-braich-y-cafn. Cymdeithas derfynol 15 mlynedd yw hon eto, ac y mae yn awr yn 5 oed.*

***Rhif. 3** ydyw y "Glan Ogwen Benifit Building Society." Cynhelir hon yn y Queen's Head Inn. Yr ysgrifenydd yw yr un a Rhif. 2, (**Mr Richard Hughes**, Ogwen Terrace) ar ymddiriedolwyr ydynt, Mri Owen Williams, Tŷ'n twr, chwarelwr; Eleazer Richard Abraham, Bryn Cul, amaethwr; David Phillip Williams, Bethesda, chwarelwr; a Griffith Jones, Pantdreiniog, chwarelwr. Mae swyddogion y gymdeithas hon eto wedi bod yn eu swyddi er y dechrau. Cynhelir ei chyfarfodydd y nos Fawrth cyntaf ar ôl y tal. Terfynol yw hon eto, 15 mlynedd; mae yn bresennol yn 9 oed.*

***Rhif. 4** yw y "Prince Alfred Benefit Building Society." Cynhelir hon yn y Coach and Horses. Yr ysgrifenydd yw Mr David Roberts, (Alawydd) Tai duon, Bethesda, slate inspector. Yr ymddiriedolwyr ydynt, Mri. Hugh Roberts, Hirdir, slate inspector; David Griffith, Garneddwen, quarry agent; a David Davies, Rachub, chwarelwr. Cymdeithas derfynol ydyw hon hefyd; yn ôl y rheolau darperir iddi ddod i fyny mewn ugain mlynedd; ond y mae y taliadau misol ar bob cant, yn llawer iawn rhy isel iddi allu dod i fyny mewn hynny o amser, fel y cawn ddangos eto. Mae gwaith swyddogion rhai o'r cymdeithasau hyn y neu cychwyn ar sylfaen mor bwdr, wedi peri anrhefn mawr yn ein plith, a cholledigion mawrion i lawer o'r aelodau. Cynhelir cyfarfodydd y gymdeithas nos Lun cyntaf ar ôl y tal yn y chwarel. Mae yn bresennol yn 8 oed.*

***Rhif. 5** yw y "Cilfoden Benefit Building Soceity," Cynhelid hon yn No. 3, Ogwen Terrace. Yr ysgrifenydd oedd **Mr Robert Jones**, Bookseller, Ogwen Terrace. Yr ymddiriedolwyr oeddynt Mri. John Hughes, Gerlan, chwarelwr; Thomas Morris, 3, Brynteg-street, chwarelwr; Robert Griffith, Grey-street, chwarelwr; Cynhelid cyfarfodydd y gymdeithas nos Iau cyntaf ar ôl y tal. 20 mlynedd oedd yr amser a fwriadwyd i hon eto ddod i fyny ynddo; ond mae'n ddrwg gennym ddywedyd, o herwydd anghytundeb rhwng aelodau a gofynwyr y gymdeithas ei bod wedi myned i'r Chancery. Ymatalwn yn bresennol rhag myned i mewn i'w hamgylchiadau, ac i'r hyn achosodd yr anghytundeb; gyda yn unig hysbysu fod, swm mawr heb yr un cyfrif i ba le y maent wedi myned yn perthyn i'r gymdeithas hon. Cawn roi ychwaneg o'r manylion pan y deuwn i osod ger eich bron sefyllfa pob un o'r cymdeithasau mor belled ag y gallwn.*

*Gadawn i'r cymdeithasau yn y fan yma am yr wythnos hon, a cheisiwn gael amser i ddod atynt eto yr wythnos nesaf.*

*Gwyliedydd.*

Fe welir o'r adroddiad uchod fod Richard Hughes yn ysgrifennydd i ddwy o'r cymdeithasau adeiladu a oedd yn bodoli ym Methesda ar y pryd, sef "*Victor(ia) Benifit Building Society*." a'r "*Glan Ogwen Benifit Building Society.*" Yn anffodus, nid oes mwy o hanes y cymdeithasau yma yn ymddangos yn y newyddiaduron.

(i'w barhau). Y mis nesaf - rhif 9 Rhes Ogwen (rhan 2) a rhif 10 Rhes Ogwen.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com



**Cyflwyno Mainc**
Dyma lun o Mrs Daphne Russell, Bwthyn Ceirios, yn cyflwyno mainc i'r pentref er cof am ei gŵr, Yr Athro Ian Russell, a fu farw yn sydyn y llynedd. Diolch i aelodau Cyngor Gwynedd am baratoi a'i gosod yn ei lle. Yn y llun hefyd mae Eirlys Edwards, Liz Jones, Dr Pam Jones a Muriel Owen, gyda Daphne Russell yn eistedd.

**Llongyfarchiadau**
Mae Mrs Linda Evans, Penrhyn House wedi ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol Hirael. Mae pawb o'r pentref yn ei llongyfarch a dymuno'n dda iddi.

## Eglwys Sant Tegai

**Nadolig Llawen!**
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi.

**'Anrheg y Nadolig' Ymgyrch Elusennol yr Eglwys yng Nghymru 2023**
Ym mis Tachwedd gwahoddodd Archesgob Cymru ni fel eglwysi i gasglu eitemau glendid, hetiau, sgarffiau, menyg a dillad cynnes, dyddiaduron / llyfrau nodiadau bach sylfaenol, beiros, llyfrau pos, waledi fel anrhegion ychwanegol i bobl yn ein banciau bwyd lleol. Diolch i aelodau'r gynulleidfa am eu parodrwydd i ymwneud â hyn ac am eu holl haelioni tuag at elusennau yr ardal.



**Coeden Nadolig St Tegai 2022, rhodd gan Gastell Penrhyn. Mae'r gwasanaeth eleni ar nos Sul. Rhagfyr 17eg am 6 o'r gloch.**

**Gwasanaethau Nadolig St Tegai 2023**
Rhagfyr 17eg: Gwasanaeth Naw Llith a Charol dwyieithog traddodiadol yng ngolau cannwyll am 6 o'r gloch. Bydd lluniaeth ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth.
Rhagfyr 24ain: Noswyl y Nadolig - Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr. Ni fydd gwasanaeth yn yr Eglwys ar Ddydd Nadolig .

**Apêl Nadolig 2023**
A fuasech eto eleni yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St Tegai i sicrhau ein dyfodol ariannol? Derbynnir rhoddion at Apêl y Nadolig yn ddiolchgar fel arian parod ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i *Llandegái Church*) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chod post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn diwedd Rhagfyr 2023, os gwelwch yn dda.

Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719*
*annacoed@hotmail.com*
Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandygái, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandygái, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD 01248354369
nessie211@btinternet.com
Rhian Llewelyn Jones, 15 Trefonwys, Bangor, Gwynedd. LL57 2HU
01248355223 rhianlljones@hotmail.co.uk

**Manylion Cyswllt**
Mae'r eglwys ar agor! Yn dilyn sefydliad y Parch. Ddr Gareth Lloyd fel ein Harweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Partneriaeth Ogwen

### Digwyddiad Creu Atalydd Drafft

Ddydd Sadwrn, Tachwedd 18fed, ymunodd Hwb Ogwen a'r Gofod Gwneud yng Nghanolfan Cefnfaes i greu atalyddion drafft i gadw cartrefi'r gymuned yn gynnes y gaeaf hwn. Gall atalyddion drafft fod yn ddrud i brynu, ond byddent ar gael drwy Hwb Ogwen ar ddechrau mis Rhagfyr.

Mae cymuned Dyffryn Ogwen wedi bod yn hael iawn gyda rhoddion defnydd. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ddeunyddiau ac a ddaeth draw i'n helpu i wneud yr atalyddion drafft. Gwnaethpwyd tua 50 o atalyddion drafft. Bydd y rhain ar gael trwy Hwb Ogwen fel rhan o'r cynllun bocsys gaeaf i helpu trigolion i gadw'n gynnes y gaeaf hwn. Cysylltwch â Hwb Ogwen am fwy o wybodaeth.



Atalyddion drafft

### Cydweithfa – Gofod Cydweithio Cymraeg yng Nghanolfan Cefnfaes

Fel rhan o'r gwaith adnewyddu yng Nghanolfan Cefnfaes, mae Partneriaeth Ogwen yn lansio'r Gydweithfa - man cydweithio modern, cyfforddus. Mae'r Gydweithfa yn darparu amgylchedd cynnes a chyfleus i weithwyr llawrydd, entrepreneuriaid, a gweithwyr cartref sy'n chwilio am le i weithio'n hyblyg yng nghanol Dyffryn Ogwen. Mae ein gofod ar ei newydd wedd yn cynnig desgiau unigol gyda chysylltiadau band-eang cyflym i wneud eich diwrnod gwaith mor gynhyrchiol â phosibl, wrth gynnig seibiant o swyddfeydd cartref.

Gellir prynu tocynnau diwrnod llawn neu hanner diwrnod drwy'r ddolen isod:

https://partneriaethogwen.simplybook.it

O nawr tan ddiwedd 2023, bydd tocynnau yn hanner pris - £5 am docyn diwrnod a £2.50 am docyn hanner diwrnod. Ymhellach, mae croeso i bawb ddod i ddefnyddio'r cyfleusterau am ddiwrnod am ddim - cysylltwch â gofod@ogwen.org am fwy o fanylion.


Cydweithfa, Canolfan Cefnfaes

### Datganiad Dyffryn Caredig

Mewn cyfnod ble mae cymunedau'n wynebu heriau trafnidiaeth a chostau byw cynyddol 'roedd Partneriaeth Ogwen yn falch iawn o allu croesawu Siân Gwenllian AS a Hywel Williams AS i Ganolfan Cefnfaes ddydd Gwener, Rhagfyr 1af ar gyfer lawnsio prosiect y Dyffryn Caredig yn ffurfiol. Derbyniwyd newyddion ardderchog yn ddiweddar fod Cronfa Gymunedol y Loteri wedi penderfynu ariannu prosiect y Dyffryn Caredig. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar lwyddiant blaenorol y Dyffryn Gwyrdd, a'r tro yma bydd y prosiect dwy flynedd yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gymunedol – cerbydau a beiciau trydan fydd yn darparu cludiant fforddiadwy a chynaliadwy i gymunedau Dyffryn Ogwen.

Mae'r Bartneriaeth wedi derbyn £327,411 ar gyfer y prosiect er mwyn datblygu a hyrwyddo Dyffryn Ogwen fel ardal gynaliadwy. Dywedodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen, "Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn amser heriol i'n cymunedau yma yn y Dyffryn gyda chostau byw a thrafeilio wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym wedi gwrando ar ddyheadau'r trigolion ac yn ymestyn ein darpariaeth cludiant – yn fws cyswllt, cerbyd addas i gadair olwyn, car benthyg Co-Wheels a fflyd o feics trydan ac addasedig.

Rydym wrth ein boddau, ac yn wirioneddol ddiolchgar i'r Gronfa Gymunedol ac i Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am y cefnogaeth hael yma. Byddwn yn defnyddio'r arian hyn i ehangu'n cludiant cymunedol werdd fydd yn cyfrannu at leihau ôl-troed carbon y Dyffryn a chryfhau gwead ein cymuned a chyfranogiad trigolion i fywyd a chymdeithas Dyffryn Ogwen".

Ychwanegodd Huw Davies, Rheolwr y Dyffryn Caredig, "Mae'r gefnogaeth yma'n golygu ein bod yn gallu parhau i ddatblygu'n gwasanaethau ar gyfer trigolion y Dyffryn. Yn ddiweddar, 'rydym wedi lawnsio gwasanaeth newydd bws cyswllt ar gyfer dod â phobl i Fethesda i ddal bysus i Fangor ac ar gyfer apwyntiadau yn y feddygfa a'r ddeintyddfa a digwyddiadau cymdeithasol. Hefyd rydan ni wedi bod yn cynnal tripiau siopa Dolig, ac mae'r rheini wedi bod yn boblogaidd iawn wrth fynd o bentrefi'r ardal i lefydd fel Llandudno a Tweedmill".

Cysylltu â ni: Huw Davies. 07874382114 / 01248602131 huw@ogwen.org

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# CHWILAIR



## CADW GWENYN

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | A |
| D | D | N | A | P | A | U | G | W | E | N | Y | N | D | I | O | G | Q | U | S |
| O | F | **S** | **E** | **N** | **I** | **H** | **N** | **E** | **R** | **B** | **R** | **W** | **I** | **L** | **A** | **T** | **A** | C | R |
| P | F | Y | Q | Z | G | R | H | C | U | M | O | W | N | O | Y | R | I | N | A |
| S | E | Z | U | T | F | D | X | U | P | W | R | C | H | C | Q | H | W | E | E |
| H | G | W | E | I | T | H | I | W | R | O | Y | E | S | E | G | E | O | W | M |
| H | I | E | P | T | T | C | B | B | C | U | U | J | P | E | L | T | M | Y | I |
| V | N | V | D | C | B | B | F | R | F | O | G | N | J | V | P | I | I | L | R |
| R | X | I | M | H | T | T | O | S | K | O | Y | P | W | R | C | I | M | L | K |
| C | B | O | R | C | X | V | R | Y | H | N | S | T | M | R | E | F | L | Y | Y |
| R | J | D | Z | H | B | C | W | O | E | S | C | R | A | S | L | I | X | N | N |
| E | I | L | X | J | J | M | B | W | W | T | E | X | E | E | M | D | X | K | F |
| D | U | P | C | Q | Y | O | G | I | L | F | E | N | F | R | Z | Q | R | O | C |
| H | T | D | G | W | L | R | S | L | Z | E | I | T | B | E | A | J | K | J | C |
| T | L | N | L | L | Y | R | V | O | G | H | F | J | P | W | P | G | S | O | W |
| I | J | J | I | W | Q | U | L | F | N | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S |
| E | L | A | C | Z | E | A | F | E | O | X | I | W | T | Z | H | K | V | A | G |
| N | P | B | N | K | A | D | R | L | D | I | L | I | A | U | M | E | L | S | I |
| K | O | G | D | H | B | B | L | S | I | U | R | O | X | A | G | X | R | A | E |

Yn y Chwilair mis yma mae deuddeg peth sydd yn ymwneud â CADW GWENYN. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Rhagfyr. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Diolch yn fawr i Geraint Williams, Llansadwrn, am anfon testun y Chwilair mis yma. Mae'r testun yma yn un digon anodd yn fy marn i, ond cawn weld pwy fydd wedi canfod yr holl atebion. Er nad oeddech yn llwyddiannus yn ganfod yr holl atebion, rwyf yn diolch yn fawr i chi, Sandra Howell, am y cerdyn Nadolig a Chyfarchion y Tymor.

**Dyma atebion Chwilair Tachwedd:** Bryn Hafod y Wern; Bwlch y Groes; Cefn Du; Cilgwyn; Cloddfar Coed; Dinorwig; Dorothea; Glynrhonwy; Moel Tryfan; Pantdreiniog; Penrhyn; Talsarn.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Gwen Davies, Tanysgafell; Wendy Eccles, Rachub; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Judith Hughes, Llangoed; Nia Wyn Bagnall, Llandygái; Doris Shaw, Bethesda; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth.

**Enillydd Medi oedd:** Doris Shaw, 2 Arafa Don, Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AR.

# Natur o'n Cwmpas

# Y Bwncath



Un o'n hadar ysglyfaethus mwyaf amlwg ydi'r bwncath cyffredin (Buteo *buteo*), ac mae digon o gyfleoedd i'w weld o fewn ein dyffryn. Bydd modd gwylio un yn bur aml yng nghyffiniau Cochwillan a'r Rhiw Goch, ym Mharc y Marian a phen draw Lôn Bronnydd, ac yng Nghororion a Llys y Gwynt. Yn ôl un astudiaeth dro'n ôl bellach, roedd ar gyfartaledd un pâr bob 4 milltir sgwâr yn Eryri. Dengys tystiolaeth ddiweddar fod eu niferoedd ar gynnydd.

Mae o'n aderyn pur fawr, o'i gynharu â'r cudyll coch a'r cudyll glas, ac yn ei lawn dwf bydd tua 54cm o hyd, lled ei adenydd yn 1.2m, a'i bwysau rhwng 780g ac 1kg. Hyd oes bwncathod cyffredin ar gyfartaledd ydi 12 mlynedd. Does dim patrwm penodol i liwiau ei blu – mae'r brown golau a'r brown tywyll frith draphlith drosto. Fodd bynnag, mae patrwm i'w weld oddi tano.

Fel yr holl adar ysglyfaethus, mae ganddo lygaid eithriadol o gryf. Dyma heliwr effeithiol, a'i ysglyfaeth arferol ydi mamaliaid bychain – llygod o bob math yn bennaf – ac mae'n hoff iawn o fwyta cwningod a grugieir. Ei ddull o'u hela ydi aros yn llonydd ar gangen, postyn ffens, craig neu bolyn teligraff, a phlymio'n ddirybudd ar ei brae yn y gwair islaw. Bryd arall, bydd yn cerdded ar dir agored, boed gae neu ffridd, a chwilota i ddal llyffantod, chwilod a morgrug neu i wledda ar weddillion corff cwningen neu lygoden bengron. Nythu mewn coeden fydd y bwncath, a magu un nythaid o 2-5 cyw.

Ar ddiwrnod clir, bydd yn hedfan yn uchel a throelli yn yr awyr am hydoedd, a'i alwad nid annhebyg i fewian cath i'w chlywed o bell. Dyma sut y cafodd yr enw 'bwncath', sef 'sŵn fel cath', a ffurf arall ar ei enw ydy 'boncath'. Yn aml, gwelir brain yn ei herio pan fydd ar adain fel hyn, ond ni fydd y ffrwgwd byth yn troi'n ymosodiad gwaedlyd.

## Wyddech chi..?

**Chwilen yr Wyddfa** (*Chrysolina cerealis*) Yr unig le i chi weld y chwilen brin hon yng ngwledydd Prydain ydy ar yr Wyddfa. Dyma chwilen drawiadol o liwgar, efo rhesi glas a rhesi coch ar hyd ei chorff gwyrdd metalaidd, ac mae'r elfen symudliw, yn ôl y golau, yn peri i'r coch ymddangos yn euraid. Ei maint ydy 5.5-10mm (0.22- 0.39 modfedd), a chwilen ddiadenydd ydy hi.

Ei chynefin ydy gweirdir dros 600m uwchlaw lefel y môr, ac mae hi wedi parhau ar lethrau'r Wyddfa ers diwedd Oes y Rhew. Yn ôl yr arbenigwyr, amcangyfrifir mai tua mil ohonyn nhw sydd ar y mynydd erbyn heddiw. Maen nhw hefyd o'r farn y gallai rhai o'r chwilod prin hyn fod wedi goroesi yng Nghwm Idwal ac ar y Glyderau.



*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

MODURDY
FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais
Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**


# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts





Dilwyn Morgan, cyflwynydd y noson, efo'r gantores nodedig Sioned Terry a Trystan Pritchard, Prif Weithredwr yr Hosbis.



J David Jackson, Arweinydd Cwmni Opera Metropolitan Efrog Newydd

**Cyfrannu a chystadlu** Mae Côr y Penrhyn yn nodedig am ei barodrwydd i berfformio mewn cyngherddau elusennol ac am droi allan i gynorthwyo pob math o achosion dyngarol. Does dim ond eisiau edrych ar y cymorth a roddwyd ers blynyddoedd i Hosbis Dewi Sant er enghraifft, i wybod bod rhai miloedd o bunnau wedi'u codi i gynnal yr achos hwnnw.

**Allweddol** Dywedodd Trystan Pritchard, Prif Weithredwr yr Hosbis, "Mae cyfraniad y côr wedi bod yn allweddol i waith yr hosbis a byddai cynnal y lle'n amhosibl heb gyfraniadau o'r fath."
Y llynedd gwnaeth y côr gyfraniad mawr i achos Wcráin ac mae achosion da lleol fel Eglwys Glanogwen ac unigolion mewn angen yn y fro wedi derbyn cymorth hefyd.

**Codi'r to yn y Gadeirlan** Nos Wener Rhagfyr 1, aeth y côr i Gadeirlan Bangor i ganu mewn cyngerdd at gronfa Hosbis Dewi Sant. Cawsom gwmni Sioned Terry, messo soprano sydd wedi derbyn hyfforddiant clasurol ac yn ferch sydd â galw mawr am ei gwasanaeth. Pleser llwyr i'r cannoedd oedd yno'n gwrando arni oedd ei chlywed yn mynd drwy ei rhaglen mewn llais hynod o swynol a chlir. Un arall oedd yn cyd-berfformio â'r côr oedd Elain Meirion, merch yr enwog Rhys Meirion. Rhys ei hun oedd i fod yno, ond oherwydd ei fod dan y fffiw daeth Elain yno i gymryd ei le. Mae hithau fel Sioned Terry yn berchen ar lais arbennig o dda a braint i lawer oedd ei chlywed am y tro cyntaf.

Arweinydd y noson oedd Dilwyn Morgan, y digrifwr a'r cyflwynydd nosweithiau llawen adnabyddus. Mae Dilwyn, fel Côr y Penrhyn, wedi bod y cyflawni'r gwaith o berfformio yng nghyngerdd blynyddol yr hosbis ers blynyddoedd ac mae ei arabedd wrth wneud y gwaith yn dod â gwên i wynebau pawb.

Roedd y rhaglen yn cynnwys cymysgedd helaeth o ganeuon traddodiadol a charolau Nadoligaidd ac roedd y sylwadau a glywyd ar ddiwedd y noson yn tystio i'r pleser a'r mwynhad a gafodd y gynulleidfa. " Chwip o gyngerdd"; "Gwerth Chweil o noson"; "Edrych ymlaen at y nesa."

Ar ben yr holl waith elusennol, mae'r côr yn un o'r ychydig gorau meibion sy'n barod i fentro i gystadleuaeth, fel y profodd ein hymweliad ag Eisteddfod Boduan ym mis Awst. Mae Côr y Penrhyn hefyd wedi cefnogi Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn gyson dros y blynyddoedd, gan ennill droeon a cholli'n achlysurol. Wrth gwrs, mewn cystadleuaeth lle ceir amrywiaeth o gorau, yn cynnwys corau merched deulais a chorau bach, mae pawb yn ymwybodol o faint y sialens sy'n wynebu corau meibion mawr o bedwar llais.

Ym marn Aled Williams sy'n ganwr profiadol iawn, "Tra bod y canu grymus, nerthol yn dod yn naturiol i gôr meibion nid yw cadw tonyddiaeth a llyfnder sain yn beth mor hawdd. Mae'r ddau lais tenor a'r ddau fas yn gorfod ceisio cadw at eu nodau yn ogystal â bod yn effro i sain eu cymdogion yn y lleisiau eraill."


**Ymwelydd Arbennig - Maestro J David Jackson** Yn ystod mis Tachwedd braint fawr i'r aelodau oedd cael croesawu un o arweinyddion mawr y byd atom pan ddaeth ymwelydd tra phwysig arall i wrando ar y côr yn ymarfer.

Daeth y Maestro David Jackson, arweinydd Cwmni Opera Metropolitan Efrog Newydd, atom yng nghwmni Ross Craigmile. Mae'r Maestro Jackson yn arweinydd cerddorfeydd a chynyrchiadau operâu fel *Hansel a Gretel* a *Simon Boccanegra* gyda neb llai na Placido Domingo yn serennu. Mae o hefyd wedi arwain cerddorfeydd dros y byd mewn lleoedd fel Lisbon, Slofacia, Toronto a Glyndebourne. Mae Mr Jackson yn ymfalchio yn ei dras Gymreig ac yn rhugl mewn chwe iaith. Gwrandawodd ar y côr yn ymarfer o dan arweiniad Owain Arwel ac roedd ganddo air o ganmoliaeth i sain a thonyddiaeth y côr.

Diolch i gerddor proffesiynol arall yn ein plith, sef Ross Craigmile, am ddod â phobl o'r fath i wrando ac i gynorthwyo Côr y Penrhyn.

**Purdeb Mynegiant**
Fel yr esboniodd Owain Arwel, arweinydd y côr, " Mae'r ymarferion lleisiol yn ceisio creu purdeb mynegiant fel bod pob llais yn creu sain sy'n briodol i natur y llais hwnnw ac yn swnio'n gerddorol bersain."

Ychwanegodd Arwel, "Dan ni'n ffodus iawn bod gynnon ni Caleb Rhys, sy wedi derbyn hyfforddiant lleisiol yn adrannau cerdd Prifysgolion Bangor a Lerpwl, i hyfforddi'r gwahanol leisiau. Hefyd, mi ddaeth canwr opera proffesiynol o'r enw Salvador Carbò o Gatalonia aton ni un noson i roi hyfforddiant arbenigol i'r lleisiau."



**ALED WILLIAMS**
Aelod blaenllaw:
"Her i bob côr meibion ydy cadw tonyddiaeth a chydbwysedd yn y pedwar llais"



**CALEB RHYS**
Hyfforddwr lleisiol:
"Ein nod ydy cael yr aelodau i anadlu a chreu sain sy'n deillio o'r diaffram..."

# Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Wyn Williams sy'n canu gyda'r ail fas.**



**Be' ydy dy enw llawn?** Wyn Ifan Owen Williams
**Oed?** Mi ges i fy ngeni yn yr un flwyddyn ag yr aeth y person cynta' i'r gofod.
**Gwaith?** Cyfarwyddwr Teledu.
**Lle wyt ti'n byw?** Saron, ger Caernarfon.
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** O Rymni yn yr hen Sir Fynwy.
**Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifio orau?** Lled-drefnus, Cadarnhaol, Trio 'ngore...
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Am gyfnodau, ers tua 25 mlynedd.
**Pa lais wyt ti?** Bâs gwaelod.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Dod gyda chriw o ffrindiau a chael croeso. Ma' naws Bethesda yn debyg iawn i gymunedau'r cymoedd yn y De, lle ces i fy magu.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Ar hyn o bryd, 'O, Oleuni Bendigaid Duw' (*Lux Beatissima*) gan Howard Helvey, darn digyfeiliant hyfryd iawn.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Ar hyn o bryd, Mared Williams. Erioed, hmm... Christy Moore.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** 'Wy wrth 'modd yn gweld sîn mor fywiog, amrywiol a safonol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** 'Wy'n cofio i ni ddechre' canu'n ddirybudd ar blatfform stesion y Tube yn Llundain (adeg cyngerdd y mil o leisie' yn Neuadd Albert) a chael ymateb a chymeradwyaeth ryfeddol (acwstigs da...) a hynny cyn dyddie 'fflashmobs'. A ma' 'na lwyth o atgofion difyr am dripiau hynod i America ac i'r Iwerddon ond alla' i ddim datgelu manylion...
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Teithio (yn y campyr fan weithie), theatr, ffilm, celf a cherddoriaeth, gwleidyddiaeth, darllen, rygbi, croeseiriau a chrwydro'r bryniau a'r glannau - tirwedd ryfeddol Cymru (a gwledydd eraill) - a thynnu ambell lun.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Braf gweld y côr yn mentro a gneud petha 'gwahanol' yn y blynyddoedd diwetha' - Glastonbury ac ati - mwy o hynny? A 'falla gellid 'styried canu mewn lleoliadau amgen/annisgwyl, allan yn y dirwedd neu le bynnag ma' na acwstig da?
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Ma' 'na ysbryd cadarnhaol, gweithgarwch dygn a gofal mawr am ein gilydd o fewn y côr - profwyd hynny adeg y Cofid - ac y'n ni'n creu seiniau hyfryd a cherddoriaeth o safon. Hir y parhaed!

# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Ydych chi'n awyddus i wrando ar bodlediadau Cymraeg neu hyd yn oed greu podlediad eich hun? Beth yw podlediad? Y diffiniad cyffredinol amdano yw cyfres o benodau neu raglen ar ffurf sain fel arfer sy'n cael ei ddarlledu ar y We yn trafod pob math o bynciau. Mae'n ffordd wych o gofnodi hanesion neu gyfweliadau a'u rhoi ar gof a chadw. Mae podlediad yn ffordd ddyfeisgar o fod yn ddarlledwr eich hunain. Mater syml ydi golygu'r clipiau (os oes angen) a'u rhoi mewn naill ai cyfres o benodau neu un cyfanwaith. Mae Radio Cymru bellach yn cynhyrchu podlediadau fel rhan o'u arlwy. Maent yn fersiynau estynedig o raglenni byrrach yr orsaf.

Gwefan angenrheidiol ar gyfer pobl sy'n awyddus i wrando ar bodlediadau Cymraeg difyr yw'r Pod https://www.ypod.cymru/ Mae'r Pod yn llawn o wybodaeth ddiddorol sy'n ymwneud â phodlediadau yn y Gymraeg.

Nid oes raid cael sgiliau digidol uwch i gael mynediad at y rhain achos mae'n gymharol hawdd i'w cyrraedd heb lawer o ymdrech. Mae'r gwahanol podlediadau yn y Gymraeg wedi cael eu rhannu mewn themâu ar y wefan hon megis: Adloniant a Cherddoriaeth, Chwaraeon, crefydd ac yn y blaen. Mae yna sawl podlediad wedi eu cyhoeddi dros y blynyddoedd diwethaf ac maen nhw'n ddifyr iawn. Un podlediad sy'n cael ei ddarlledu yn gyson ydi'r Coridor Ansicrwydd gyda'r cyn-chwaraewyr pêl-droed Owain Tudur Jones a Malcolm Allen – gwrando difyr os ydych yn gefnogwr pêl-droed ac yn rhan o'r Wal Goch. Podlediad  i ddilynwyr bob dim Disney yw'r Crochan Disney ble mae David Herzog (o America) a'i wraig April (o'r Wyddgrug) yn sgwrsio am ffilmiau a chartwnau Disney. Mae'r gweinidog Rhys Llwyd o Gaernarfon yn cyhoeddi podlediadau cyson ar ei fyfyrion dros y Sul trwy Bodlediad Caersalem. (https://ypod.cymru/podlediadau/caersalem) Ar bodlediad diweddaraf PenRhydd, mae Iestyn Tyne a Grug Muse yn gofyn y cwestiwn beth yw'r grymoedd sy'n gyrru sgwennwyr i archwilio eu hamgylchfyd, ar lefel corff, cymuned a byd? (https://ypod.cymru/podlediadau/penrhydd?id=penrhydd) Fe allwch hefyd danysgrifio i Utgorn Cymru dan adain Canolfan Uwchgwyrfai sy'n cynnwys sgyrsiau hollbwysig gyda nifer o westeion am hanes Cymru – O Dywysogion Gwynedd i Saunders Lewis: (https://www.canolfanuwchgwyrfai.cymru/cy/utgorn-cymru) Cost tanysgrifio i dderbyn 4 pennod o'r Utgorn yw £18 am flwyddyn.

Ond os ydych fel mudiad neu fenter yn awyddus i greu podlediad o ddim byd, mae yna ddigon o arweiniad ar Y Pod i allu gwneud hynny. Mae'n ffordd effeithiol o hybu gweithgareddau sy'n digwydd yn eich cymuned neu'n gyfrwng da i drafod materion cyfredol neu gofnodi atgofion pobl am eu hardal.

Mae'r ymgynghorydd digidol Aled Jones a sefydlodd Y Pod yn cynnig cyngor gwerthfawr ar y meicroffonau gorau a rhad er mwyn creu podlediad, a'r platfformau i gynnal gwasanaethau podlediadau fel Soundcloud a Podbean. Mae hefyd yn ymgeisio i ateb y cwestiwn, beth yw'r gwahaniaeth rhwng radio a phodlediad, a pham creu podlediad yn y lle cyntaf, https://ypod.cymru/blog/category/cymorth/

Wrth gwrs, mae'n bwysig fod yna gymaint â phosib o bodlediadau yn y Gymraeg, Gorau po fwyaf o amrywiaeth yn trafod pob math o bynciau o'r dwys i'r doniol. Mae'n rhan o aeddfedrwydd diwylliannol y Gymraeg ac yn dangos ein bod ni yma o hyd yn y byd digidol. Gobeithio y cewch chi Nadolig llawen, a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch!

Os hoffech wybod rhagor am unrhyw agwedd o'r byd digidol, neu os ydych yn chwilio am hyfforddiant neu gymorth ar ddatrys problem ddigidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

# BOED HEDDWCH I BAWB DRWY'R BYD



# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

**Ysbyty**
Cofion gorau am wellhad buan at bawb sy'n sâl a'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith Heulwen Hughes, Pen-y-bryn; Irfon Hughes, Erw Las, a John Roberts, Llain y Pebyll.

**Ymddeoliad**
Dymunwn ymddeoliad hapus i Geraint Griffiths, Pant Glas.

**Cyfarchion**
Gan na fydd Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas, yn anfon cardiau Nadolig eleni, mae hi'n dymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Cydymdeimlo**
Eto yn ystod y mis a aeth heibio bu sawl teulu mewn profedigaeth ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt i gyd:

Susan a'r teulu, Llawr y Nant, wedi colli ei brawd, Stephen, yn sydyn ar 2 Tachwedd.

Eurwyn a Janet a'r teulu, Stad Coetmor, a theulu'r diweddar Derek V. Hughes, Maes Bleddyn, a fu farw ar 14 Tachwedd.

Joan Parry, Abercaseg, a'r teulu ar golli chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, sef Brenda Wyn Jones, Tregarth, ar 1af Tachwedd.

Helen Jones, Hannah ac Emma, 43 Erw Las, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef Mrs Maureen Jones, Llanfairfechan. Ni fu Mrs Jones yn dda ei hiechyd ers nifer o flynyddoedd a bu gofal y tair drosti yn dyner iawn.

**Marw**
*Gareth Vaughan Roberts*
Yn sydyn yn ei gartref ym Maes y Garnedd, ar 24 Hydref, bu farw Gareth Vaughan Roberts yn 50 oed. Tad annwyl i Daniel, Kelly a Leanne. Mab Teresa a'r diweddar Wil, Tregarth, a brawd y ddiweddar Iona. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 7 Tachwedd, yn eglwys a mynwent St. Mair, Gelli, Tregarth. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich colled.

*Emyr Vaughan Jones*
Yn Ysbyty Gwynedd ar 15 Tachwedd, bu farw Emyr Vaughan Jones, Llawr y Nant, yn 82 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Ann, tad y diweddar Ian, a thaid gofalus Damian, Lilly a Dion. Cynhaliwyd yr angladd ar lan y bedd ym Mynwent Coetmor ddydd Mercher, 22 Tachwedd, gyda Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, sydd yn aelod o'r teulu, yn arwain y gwasanaeth. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

**O Seland Newydd**
Croeso cynnes i Ddyffryn Ogwen i Delyth Boase a'r plant, Siân, Leah a Conor. Ar ôl bwlch o 6 mlynedd, maent wedi dod i dreulio rhyw bythefnos yn Rhos y Nant yng nghwmni Dennis a Ceri Dart, sef rhieni Delyth a thaid a nain i'r plant. Dymunwn fwynhad mawr i'r teulu oll yn ystod yr wythnosau a gânt gyda'i gilydd.

## Yr Eglwys Unedig

**Diolch**
Mae ein diolch yn fawr i'r canlynol am eu gwasanaeth yn yr oedfaon a aeth heibio: Y Parchedig Cledwyn Williams, Mrs Carol Jones, Y Parchedig Nerys Griffiths a'r Parchedig Robert Capon.

**Yr Ysgol Sul**
Deallwn fod y plant yn brysur yn paratoi ar gyfer eu gwasanaeth Nadolig fore Sul, Rhagfyr 10fed, am 10.30. Pob dymuniad da iddynt gyda'r gwaith.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Yn ôl ein harfer ers blynyddoedd bellach, byddwn yn cynnal y gwasanaeth uchod nos Sul, Rhagfyr 17eg, am 7 o'r gloch, yng nghwmni Côr y Penrhyn a doniau unigol eraill. Ymunwch gyda ni i ddathlu gwir ystyr y Nadolig gyda'n gilydd. Bydd casgliad yn cael ei wneud tuag at achos da.

**Llongyfarchiadau**
Estynnwn ein llongyfarchiadau mawr i un o'n haelodau, sef Buddug Watcyn Roberts, ar ennill Cadair Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen eleni. Mae Buddug ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer Doethuriaeth yn y Gymraeg, a dymunwn bob llwyddiant iddi.



**Y Gymdeithas**
Y mis diwethaf, tro Walter Williams oedd hi i'n diddori. Ei bwnc oedd 'Tryweryn', a chafwyd tipyn o hanes ei deulu, a'u rhan allweddol yn y protestiadau a fu yn erbyn boddi Capel Celyn.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn y Festri fore Sadwrn, Tachwedd 25ain, gyda'r elw yn mynd at y Capel. Diolch i bawb am bob cymorth a gafwyd.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai ohonoch sydd yn methu bod gyda ni yn ein hoedfaon, a gweddïwn y cewch gysur dros gyfnod y Nadolig.

**Y Banc Bwyd**
Daeth yn amser i ni gyfrannu unwaith eto tuag at y Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Mae basged bwrpasol yn y Festri yn disgwyl i gael ei llenwi, a diolchwn ymlaen llaw am eich haelioni arferol.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Rhagfyr 17: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7.p.m.)
Rhagfyr 24: Gweinidog (10)
Rhagfyr 31: I'w drefnu
Ionawr 7: Gweinidog (10) Cymun
Ionawr 14: Y Parchedig Gwenda Richards (5)
Ionawr 21: Gwasanaeth Plygain (6)
Ionawr 28: Gweinidog

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch, gan gofio bob amser am y rhai llai ffodus na ni:

Wrth fwrdd y wledd eisteddwn, – o ganol
Digonedd y codwn;
Heddiw, nac anwybyddwn
Waedd y lleill am weddill hwn.
(**RJ Rowlands**)

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl**
Enillwyr mis Tachwedd:
£30 – Rhif 29 – Mrs Joan Williams, Llanrwst
£25 - 25 – Richard Hughes, Ffordd Pant
Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

**Raffl Nadolig**
Diolch i bawb a gyfrannodd i'r Hamperi o nwyddau i'w rafflo er budd yr Apêl. Mae nifer o wobrau, a'r tocynnau ar gael gan aelodau ac yn yr eglwys.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt. Mae sawl un wedi holi ynglŷn â thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28 06306284. Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (*Standing Order*) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref; hefyd at bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl. Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau dros y Nadolig:**
Noswyl Nadolig – Dydd Sul, Rhag 24:
11.00am – Gwasanaeth 9 Llith a Charol;
4.00pm – Wrth y Preseb – gwasanaeth byr i'r plant a'u teuluoedd;
7.00pm – Gwasanaeth Cymun.
Dydd Sul, Rhag.31 – 10.00 - Carolau Ystwyll – Eglwysi Bro Ogwen ar y cyd yn Eglwys Glanogwen. Croeso cynnes i bawb fel arfer.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Pob nos Fercher am 7yh – Awr dawel i gau'r byd a'i broblemau allan. Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ar gael ar 07967652981.

# Y Map Adweitheg Cyntaf yn Gymraeg

Mae Anwen Thomas a'i chydweithwraig, Sian, yn Adweithegwyr sydd yn gwneud y fwyaf o'u gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Anwen yn byw a gweithio yng Nghaernarfon bellach ond yn wreiddiol o Ryd-y-Groes, Pentir, a Sian yn byw a gweithio yn Ffarmers, Sir Gaerfyrddin. Dyma Anwen yn rhoi hanes sefydlu'r datblygu'r Gwasanaeth Troedio Adweitheg yng Nghaernarfon yng Ngorffennaf 2019.

Adweitheg yw therapi cyflenwol, cyffyrddiad ysgafn sy'n cael ei gario allan ar y traed neu'r dwylo. Gall ddod ag ymdeimlad dwfn o ymlacio a chydbwysedd. Pan fydd ein meddwl a'n corff a'n anghenion corfforol ac emosiynol yn gytbwys, gall hyn gynorthwyo gyda'n iechyd a lles cyffredinol.

Mae Adweitheg yn seiliedig ar yr egwyddor bod pwyntiau atgyrch penodol ar y traed a'r dwylo yn cyfateb i wahanol rannau o'r corff. Mae'r traed a'r dwylo yn fap bach ac yn ddrychddelwedd o'r corff. Rhoddir pwysau ar lefydd penodol sy'n cyfateb ag organau mewnol, chwarennau a holl systemau'r corff. Trwy bwyso a chyffwrdd yn ysgafn ar y pwyntiau atgyrch hyn, y nod yw annog y corff i adfer cyflwr o gydbwysedd, ac annog a chefnogi proses iacháu'r corff.

Fel Adweithegwyr, rydym yn dilyn mapiau o'r traed sy'n dangos lleoliad pob organ, chwarren a system yn y corff.

Mewn sgwrs efo Sian dyma sylweddoli nad oedd adnodd Cymraeg ar gyfer Adweitheg ar gael, a chychwynnodd ein taith i greu map Adweitheg Cymraeg cyntaf erioed dros Zoom yn ystod y cyfnod clo.

Dechreuom drwy ddewis amlinelliad o'r traed a fyddai'n gynfas wag i dynnu lluniau systemau, organau a chwarennau'r corff arno. Cymerodd Sian rai systemau o'r corff a chymerais i'r lleill a dechrau darlunio yr hyn gredwn i fod y lleoliadau anatomegol cywir o'r holl organau a systemau.


Drwy ein gwaith yn ymchwilio i fapiau Adweitheg, sylweddolom nad yw'r mapiau yr un fath. Os ydych chi'n meddwl am edrych mewn llyfr anatomeg a ffisioleg, ni fydd unrhyw un yr un fath, ond mi fydd lleoliad yr organau.

Cydweithiom gyda dylunydd graffeg i ddod â'n weledigaeth yn fyw. Ar ôl dros flwyddyn o waith, gyda balchder roeddem yn gallu argraffu'r mapiau Adweitheg Cymraeg cyntaf erioed.

Mae'r system resbiradol, cyhyrysgerbydol, lymffatig, cardiofasgwlaidd, treulio, wrinaidd, nerfol ac endocrin, i gyd wedi'u lliwio yn wahanol er hwylustod darllen y mapiau.

Mae'r diddordeb wedi bod yn syfrdanol, ond rydym yn awyddus iawn i ledaenu'r gair ymhellach, a dyma pam rydym mor ddiolchgar am y cyfle i ysgrifennu yma yn *Llais Ogwan*, rhywbeth y bues i yn ei wneud am flynyddoedd ac yn aelod o'r tîm golygyddol am gyfnod.'

Mae Anwen a Sian yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd gyda diddordeb yn y mapiau, o unigolion ac ysgolion Adweitheg, i bobl gyda diddordeb cyffredinol yn y maes sydd eisiau dysgu mwy am y therapi hynafol yma. Am fwy o wybodaeth cysylltwch drwy e-bost anwen@troedio.cymru neu sianelenreflexology@gmail.com






# Marchnad Ogwen

'Roedd nifer dda yn mwynhau noson gymunedol braf yn Neuadd Ogwen yn y Farchnad Nos, Tachwedd 22ain. 'Roedd y Neuadd yn llawn dop o stondinau o bob math, ugain ohonynt! Croeso cynnes i'r Stondinau newydd atom.

Cafwyd canu ardderchog gan Hogia'r Bonc fel arfer. Mae'r Hogia yn dymuno rhoi yr arian am berfformio i gronfa trigolion Plas Ogwen. Diolch yn fawr Hogia' 'Roedd lobsgows blasus ar gael wedi ei baratoi gan 'Cegin Karen'. Diolch yn fawr, Karen.

Trefnwyd raffl a diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi. Yr enillwyr oedd:
£50, Colette Price; £25, Walter Williams; £10, Eleri Elis-Williams; Hamper, Ela Grace Evans

Yn anffodus iawn, gan fod gwaith pellach yn digwydd yn Neuadd Ogwen, ni fydd posib cynnal Marchnad mis Ionawr. Gobeithio y bydd pob dim yn ôl i'r arfer o Chwefror ymlaen - sef Marchnad ar yr ail Sadwrn yn fisol.

Bydd croeso cynnes ym Marchnad Ogwen Chwefror 10fed o 9.30 - 1.00.

Mae gwybodaeth ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a facebook.


Marchnad Ogwen

**Chwefror 10fed**

**9.30am - 1pm**

**Neuadd Ogwen**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**facebook instagram**


# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**

**Gyrfa Chwist**

Rhagfyr 19
Ionawr 9, 23 a 30

am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

**Drws Agored**

**YNG NGHAPEL SHILOH NEWYDD, TREGARTH**

**BOB BORE GWENER O 10 TAN 12 O'R GLOCH CWMNI, SGWRS, PANED A CHYNHESRWYDD**

**CROESO I BAWB DROI MEWN**

**CYFARCHION NADOLIG**

Ni fydd Alan Davies, Porthaethwy yn anfon cardiau Nadolig eleni. Hoffai anfon cyfarchion yr ŵyl at ei holl ffrindiau a chyfeillion yn Nyffryn Ogwen a'r cylch.




**CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN**

**Dr. Bleddyn Huws -**

Carneddog, a rhai o'i gyfeillion

**Nos Lun, 8 Ionawr 2024 am 7.00yh**

**Wyneb yn wyneb**: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.

Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom**: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

# Hogia'r Bonc yn 25 oed



Ar nos Wener, 3 Tachwedd bu noson o ddifyrrwch yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda pan ddaeth Hogia'r Bonc ynghyd i ddathlu pen-blwydd y grŵp yn 25 oed.

Er bod nifer sylweddol o'r hogia bellach deirgwaith yn hŷn na hynny, mae eu hysbryd ac ansawdd eu lleisiau'n parhau'n fywiog ac yn llawn asbri. Mae'r grŵp neu'r parti hwn o gantorion wedi bod yn rhan allweddol o'r sîn gwerin ac ysgafn yn Nyffryn Ogwen a thu hwnt ers 1998, ac wedi cyfrannu at ddiddanwch pobl mewn lleoedd mor amrywiol â festrïoedd capeli, clybiau, neuaddau pentref a thai tafarnau. Yn wir, byddai llawer o nosweithiau llawen wedi bod yn ddigon prin o dalent oni bai bod Hogia'r Bonc wedi bod yno i godi hwyl.

Alun Davies oedd y symbylydd i sefydlu'r grŵp yn ôl yn y 90au. Roedd Alun yn mwynhau canu'r gitâr ac wedi bod yn dod â hi i nosweithiau anffurfiol pan oedd Côr y Penrhyn yn ymlacio ar ôl perfformio. Aelodau o'r côr hwnnw ydy pob un o Hogia'r Bonc, ar wahân i Alwyn Jones (Ali) o'r Groeslon fu'n canu'r gitâr bas iddyn nhw.

**Henryd ar y ffidil**

Neilltuwyd croeso arbennig i Henryd Jones o'r Waunfawr gan ei fod o wedi ymuno i ganu'r ffidil yn y grŵp. Mae dawn arbennig Henryd a'i ffidil wedi ychwanegu dimensiwn arall i berfformiadau'r hogia.

Mewn cystadleuaeth llinell goll yn y clwb ar y noson enillodd Carol Jones o Dregarth gyda'r llinell ganlynol i gloi'r limrig;

**Hogia'r Bonc yn 25 oed**
Alun sy'n arwain y canu,
A Mald ydy'r brawd sydd yn brefu.
Unant yn iach,
I nodau Twm Bach,
**Ond Henryd yw'r sawl sy'n serennu.**

Dydy'r Hogia'r Bonc ddim yn cyfansoddi na pherfformio eu caneuon eu hunain ond yn hytrach yn canu trefniannau o ganeuon poblogaidd gan grwpiau ac unawdwyr eraill fel 'Mynediad am Ddim', Meic Stevens a Bryn Fôn. Maen nhw hefyd yn canu alawon gwerin cyfarwydd a chaneuon ysgafn eraill fel 'Hen feic Peni-Ffardding fy Nhaid' a mawr ydy'r sbort pan fydd Twm Bach yn dringo i ben bwrdd i arwain y gynulleidfa i ddynwared osgo reidio beic o'r fath. Ffefryn arall o'u heiddo ydy 'Moliannwn', cân gan Ben Jeri o Fethesda a wnaed yn enwog gan yr hen Bob Roberts, Tai'r Felin yn ôl yn y ganrif ddwytha.



Gofynnodd *Llais Ogwan* i rai o'r aelodau be' oedd eu hatgofion nhw am y 25 mlynedd o berfformio. Dwedodd Walt, "canu ydy 'mhrif ddiléit i, ac mae cael gwneud hynny yng nghwmni rhai fel Brei Pritch a Gwyn Burgess wedi rhoi pleser i mi ac i gannoedd o rai eraill dros y chwarter canrif dwytha".

"Tenoriaid ydy'n hanner ni a dan ni'n cael llawer o sbort yn yr ymarferion ac yn y perfformiadau mewn lleoedd fel 'Y Tap' yn Nhanygrisiau ger Blaenau Ffestiniog," meddai Bryn Evans.

Tri sy'n rhoi sylfaen ddofn i'r grŵp ydy Ieu Hughes o Riwlas, Brynmor Jones o Fethesda a Maldwyn Pritchard o'r Hen Dyrpeg. Tri baswr cadarn. Aelod cymharol ddiweddar ydy Mald a ddaeth i'r parti wedi i Rhys Llwyd o Dregarth roi'r gorau iddi. Aelod arall a roddodd y ffidil yn y to ydy Derek Griffiths o Ros y Coed, ond mi gafodd o a Rhys ymuno mewn cân efo'r Hogia yn noson y pen-blwydd.

Er na allai fod yn bresennol ar noson fawr yr hogia, un sy wedi bod yn aelod ffyddlon o'r tenoriaid yn y grŵp ydy Gareth Hughes neu Gareth Post i'w gyfeillion. Doedd o ddim yn dda ar y noson ond mae o a gweddill y criw am barhau i ddifyrru am sbel eto ac edrychwn ymlaen at glywed mwy ganddyn nhw.

Cyn terfynu mi rown y gair ola' i Alun Davies, eu harweinydd a'u prif leisydd: "Mi hoffwn i ddiolch i'r hogia am eu cyfraniad i Hogia'r Bonc dros gyfnod go dda, achos 'dan ni i gyd yn credu mai aelodaeth o'r grŵp sy'n ein cadw ni'n ifanc".

Aeth Alun ymlaen i ddweud, "Hefyd, diolch i'r holl bobl sy wedi troi allan i wrando arnon ni ac i'n cefnogi ymhob rhan o Ogledd Cymru a thu hwnt, ond yn arbennig, diolch i bobl Bethesda am eu cefnogaeth. Hoffem hefyd ddiolch i bwyllgor Clwb Criced a Bowlio Bethesda, ac i Christine a Gwyn yn y Douglas Arms, am adael i ni ymarfer yn eu hystafelloedd nhw dros y blynyddoedd."

Roedd Alun am ddiolch yn arbennig i Dilwyn Owen am gyfansoddi geiriau addas a gwreiddiol ar gyfer y dathliad. Mynegodd hefyd ei werthfawrogiad o gyfraniad Rhys Llwyd yn cadw cofnod o waith a pherfformiadau'r grŵp ac am roi cyflwyniad o hynny i'r gynulleidfa yn y Clwb Criced ar y noson.

Yn y parti pen-blwydd mwynhawyd bwffe rhagorol wedi'i baratoi gan 'Cegin Karen'.

**DIOLCH AM BOPETH HOGIA'R BONC!**

D.R.

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB YMHELL AC AGOS!**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN




Aelodau'r Orsedd

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Medal yr Ifanc:
Iaf: Nel Roberts
Cydradd 2il: Osian Rowlands a Hannah Ellis
Blwyddyn 7-9 - cerdd neu ddarn o ryddiaith
1af: Gruff Beech
Cydradd 2il: Lloer Davies a Gwenno Beech
Cydradd 3ydd: Arawn Gwilym a Math Pritchard
Blwyddyn 10 ac 11 – cerdd neu ddarn o ryddiaith
1af: Lois Ryder
Cydradd 2il: Seren Roberts a Lloer Gwilym
Cydradd 3ydd: Robyn Parsons Smith a Dwynwen Pritchard



Nel Robert



Lloer Gwilym, Seren Roberts, Gruff Beech, Lloer Davies
Arawn Gwilym a Math Pritchard

**Clwb Darllen Difyr**
Mae Clwb Darllen Difyr yr ysgol yn mynd o nerth i nerth. Cynhelir y clwb bob amser cinio dydd Llun yn Adran y Gymraeg ac mae'n braf iawn datgan fod y niferoedd sy'n mynychu'r clwb ar gynnydd. Un o'r rhesymau dros hyn yw'r bwrlwm o amgylch cystadlaethau'r clwb. Mae cystadleuaeth wahanol i'w chael bob hanner tymor. Y gystadleuaeth gyntaf oedd tynnu hunlun yn darllen llyfr mewn man diddorol ac fe gystadlodd bron i gant o ddisgyblion. Y buddugwyr lwcus, i gyd yn digwydd bod o Flwyddyn 7, oedd Elgan, Cleo a Bobbie yn gydradd drydydd, Bella yn ail, a Deio yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonyn nhw.
Adroddiad gan Alexis, Elise a Seren Blwyddyn 7.



**Taith Y Sgriblwyr**
Ar y 7fed o Dachwedd cafodd criw lwcus o Flwyddyn 7 brofiad arbennig iawn, sef cyfle i fod yn rhan o daith Y Sgriblwyr ym Mhrifysgol Bangor fel rhan o Ŵyl y Gelli eleni. Cawsom fwynhau gweithgareddau amrywiol fel ysgrifennu stori arswyd gyda bardd newydd plant Cymru, Nia Morais. Bu hwyl a chwerthin wrth ysgrifennu caneuon gyda'r amryddawn Casi Wyn. Yn ogystal fe daniwyd ein dychymyg gan yr Athro Angharad Price wrth gael ein tywys ar daith ddiddorol o amgylch prif adeilad y brifysgol, ble cawsom weld rhai o'r trysorau o archif y brifysgol fel copi o feibl William Morgan o'r flwyddyn 1588 a llyfr o farddoniaeth yn ysgrifen wreiddiol y bardd Hedd Wyn. Roeddem yn teimlo'n hynod freintiedig ac fe fwynhaodd pawb y diwrnod yn arw.
Adroddiad gan Lloer Davies, 7 Ogwen.




**Adran Addysg Gorfforol**
Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm dan 14 ar fuddugoliaeth o 5-3 yn erbyn Ysgol Brynrefail mewn gêm o safon uchel iawn yng Nghwpan Cymru. Pob un wedi chwarae'n wych! Gruff Beech yn sgorio tair, ac un yr un i Mattia D'amora a Max Williams.



**'CyberFirst'**
Mae genethod Blwyddyn 8 wedi bod yn brysur yn cydweithio mewn grwpiau er mwyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth ar-lein 'CyberFirst' yn ddiweddar. Cystadleuaeth genedlaethol yw hon gyda'r nod o gyflwyno merched 12/13 oed i fyd seiberddiogelwch, a'u hysbrydoli i ystyried gyrfaoedd yn y diwydiant hwn. Pob lwc, genod!



# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Siawns na fyddwch yn teimlo fel hyn ar ôl cinio Nadolig (6)
4 Bydd torri hwn yn lles efallai wedi bwyta gormod (5)
8 I addurno efo’r celyn coch a’r bythwyrdd eraill (5)
9 Bydd mynd am dro yn help i wneud hyn ar ôl gloddesta (7)
10 Edrych drosto i’w gywiro (7)
11 “Angerdd pob fflam, a thân pob nwyd, A dry’n ei dro yn - - - - llwyd” I D Hooson (4)
12 Dinas bellennig y carnifal a delw Crist y Gwaredwr (3)
14 Ynghanol trasiedi fandaliaeth y mae dinistrio (4)
15 “Duw biau - - - - bywyd, a›r hawl i fesur ei hyd” (4)
18 Mae yn glustiau i gyd, byddwch dawel (3)
21 Yno mae ugain mil duwiol ar draws y Swnt (4)
23 Cangen o feddygaeth fel pe bai mewn canolfan addysg (7)
25 Busnesu i gael gweld yr olaf o’r tair rhodd yn ei ganol (7)
26 Mis nesaf, y cyntaf, ond hen ffasiwn (5)
27 Swnio fel goglais hefyd, a gwneud i rywbeth ddigwydd (5)
28 Offeryn yr angel i gyhoeddi’r geni (6)

## I LAWR

1 Swnio fel man i blannu had, ond rhaid ei gwtogi (6)
2 Gofid o’r mwyaf yw mynnu fod rhywun yn gwneud (7)
3 Rhannau o’r corff i gario baich (8)
4 Cyfarwyddwr Cyhoeddus Boris hyd 2022 (4)
5 O fewn trwch blewyn ; bron â bod (5)
6 Gwlybaniaeth sy’n chwyrlïo a sugno a llyncu (6)
7 Cur sy yn mendio a throi yn rhyddhad ac ymgeledd (5)
13 Dyma ei henw llawn, 2024, mae hi bron â chyrraedd (3,5)
16 Cangen o gelfyddyd (7)
17 Creu a chyfansoddi nofel neu stori fer (6)
19 Nid hoff adeilad Merched Beca gynt (5)
20 Mae ar ben ar Rhys Iorwerth wedi ei ymweliad â Boduan eleni (1,5)
22 Gwneud yn dda a chyrraedd y nod (5)
24 Y môr yn 1 I Lawr ac yn cilio (4)

Atebion erbyn 5ed Ionawr 2024 ***fan bellaf*** (ni ellir ystyried y rhai sy’n cyrraedd yn hwyrach) i ‘Croesair Tachwedd’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Diolch i’r rhai anfonodd air caredig a chyfarchion y tymor, a dymunwn ninnau Nadolig Llawen a dedwydd i bob un ohonoch chwithau.

## ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2023

**AR DRAWS** 1 Tagu, 3 Mynwesu, 8 Bore, 9 Brawd Bach/Iau, 10 Tair Cenedl, 13 Wythnos, 14 Newynu, 16 Gwerth Chweil, 19 Mae Arnaf, 21 Fisa, 22 Sgetsus, 23 Asio

**I LAWR** 1 Trol, 2 Gwelltyn, 4 Yma, 5 Wadin, 6 Sbarduno, 7 Ebrill Sych, 11 Cynaeafu 12 Bydwraig, 15 Wylofus, 17 Riant, 18 Oslo, 20 Neu

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir i’r croesair y tro hwn : Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Gareth Oliver, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; M. A. Jones, Llanllechid; Huw a Gwenno, Gerlan; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Doris Shaw, Bethesda; Iona Williams, Llanddulas; Gill King, Mynydd Llandygai; Medi Michael, Bangor

Llongyfarchiadau calonnog i Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HN am ennill y wobr y mis yma.


Owen’s Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Cofio Brenda Wyn Jones

Ganwyd Brenda ar yr unfed ar hugain o Chwefror yn 1934 yn 17 Ffordd Carneddi, yn ferch i Arthur ac Elen Parry. Yn 1937, ganwyd Brian yn frawd iddi, i gwblhau'r teulu.

Mynychodd Ysgol y Carneddi ble daeth yn gyntaf yn yr arholiadau am fynediad i Ysgol y Sir, Bethesda. Fe barhaodd i lewyrchu yn y byd academaidd wrth iddi gael ei symud ymlaen flwyddyn yn yr ysgol, ac yna, tra yn gwneud ei Lefel A, ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth. Yno derbyniodd radd ddosbarth cyntaf mewn Cymraeg a Cherdd. Er cael cynnig i wneud M.A. fe aeth ymlaen i wneud Ymarfer Dysgu.

Derbyniodd ei swydd gyntaf yn Ysgol Dr Williams yn Nolgellau yn 1955 i ddysgu Cymraeg ac Ysgrythur. Mae disgrifiad canmoliadwy iawn o Brenda gan brifathrawes yr ysgol ar y pryd:

'She has proven herself to be sympathetic, understanding and reliable. She has no trouble whatsoever with discipline. She has a quick sense of humour, a pleasant friendly manner, and genuine kindness."

Tra yn dysgu yn Nolgellau y cyfarfu Brenda â Buckley Wyn. Cofiaf Buckley yn sôn y byddai'n seiclo milltiroedd dim ond i gael gwario ychydig oriau yng nghwmni Brenda. Priodwyd y ddau ar Awst y 5ed, 1961, yng Nghapel Salem, Carneddi.

Gadawodd Brenda Ysgol Dr Williams yn 1966 ac aeth i weithio yn Ysgol Esgob Llandaf yng Nghaerdydd. Tra yno, roedd hefyd yn gwneud gwaith i Gydbwyllgor Addysg Cymru.

Wedi marwolaeth ei mam a gwaeledd ei thad, penderfynodd y ddau symud i Fethesda, gan ymgartrefu yn 40 Stryd Fawr ble agorwyd siop ddillad Buckley Wyn. Yn 1977 derbyniodd Brenda swydd dirprwy-brifathrawes yn Ysgol Uwchradd Bodedern, ac aeth ymlaen oddi yno i weithio yn y Coleg Normal fel uwch-ddarlithydd yn y Gymraeg. Yno, gweithiodd ar nifer o brosiectau plant i hybu'r iaith. Un ohonynt oedd cyfieithu llyfrau Tomos y Tanc i'r Gymraeg gyda'i ffrind annwyl, y ddiweddar Jini Owen.

Yng nghanol yr 1980au, penderfynodd Buckley a Brenda brynu darn o dir ym Mhen-y-bronnydd, Tregarth, ble adeiladwyd cartref, Cae Derwen.

Er i Brenda ymddeol yn 1994, yn y cyfnod yma penderfynodd fynd ati o ddifrif i ysgrifennu. Yn y blynyddoedd i ddilyn, fel gyhoeddwyd *Bwli a Bradwr*, *Sais ydi o, Miss*, *Ble mae John Iorc?*, *Campau Saith Cawr* ac amryw o lyfrau eraill i blant.

Wedi hyn, aeth Brenda ledled Cymru yn darlithio i wahanol gymdeithasau ar amyw o bynciau, ond yr agosaf at ei chalon oedd hanes y Côr Merched yn ystod Streic Fawr y Penrhyn, a hanes i nain, Mary Elen, arweinydd y côr.

Roedd gan Brenda nifer fawr o ddiddordebau. Gwylio a chwarae tenis yn un o'r mwyaf. Gwireddwyd breuddwyd iddi yn 2001 pan gafodd hi a Buckley fynd i wylio'r tenis yn y *Centre Court* yn Wimbledon

Byddai wrth ei bodd gyda brodwaith, ac fe'i penodwyd yn llywydd Cymdeithas Brodwaith Cymru.

Angerdd mawr i Brenda oedd cerddoriaeth glasurol, a byddai'n gwir fwynhau mynd gyda'i ffrind, Mair, i wylio'r *Classic Music Series* yn Venue Cymru.

Fe aeth Buckley a Brenda ar amryw o fordeithiau wedi i'r ddau ymddeol, pryd yr ymwelwyd â *fjords* Norwy, Gwlad yr Iâ a'r Baltig.

Am flynyddoedd, bu Brenda yn gwneud gwaith gwirfoddol gyda Chyfeillion Ysbyty Gwynedd – gwaith a oedd yn agos iawn i'w chalon. Bu hefyd yn weithgar iawn gyda *Llais Ogwan* dros y blynyddoedd.

I ni fel teulu, mae hi'n anodd rhoi mewn geiriau y rhan mae Anti Brend wedi chwarae yn ein bywydau ni

- yn chwaer a chwaer yng nghyfraith i fy nhad a'm mam;
- yn gymaint mwy na modryb i Richard, Dawn, Elen a finna';



- yn hen fodryb gariadus a chlên i Rhys, Sioned, Morgan, Tomi, Gruff, Owain, Elliw ac Ynyr.

Mae gennym ni i gyd filoedd o atgofion hapus o'n hamser ni yn y siop ar y stryd fawr a'r amryw o'r teithiau a'r gwyliau gyda'n gilydd, ac yn enwedig yr atgofion hynod felys o Gae Derwen.

Hyd yn oed yn y misoedd diwethaf, roedd balchder mawr yn Anti Brend pan wnaeth Tomi ddilyn ôl ei throed drwy ennill lle ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Bron i dair blynedd yn ôl, yn dilyn gwaeledd, bu farw Buckley Wyn. Cafodd hyn gryn effaith ar Anti Brenda a doedd hi ddim yr un person. I mi, mae hyn yn adlewyrchiad o'r cariad a'r cyfeillgarwch oedd rhwng y ddau dros 59 mlynedd o briodas.

Gwaddol Brenda yw ei gwaith dygn a diddiwedd dros yr iaith Gymraeg, yn enwedig plant Cymru; ei chyfraniad i Fethesda, ac i hanes yr ardal; a'i phersonoliaeth ostyngedig, glên a chariadus.

**Dyfed Parry**

**Y LLYFR STORI**
(diolch plentyn i Brenda Wyn Jones)

Caf ffilm o agor cloriau, a gallaf
Ymgolli am oriau
Yn gwylio'n syn cyn eu cau
Oherwydd byw yw'r geiriau.
Ieuan Wyn


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus





SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Gair neu ddau
John Pritchard

## Baban go iawn

Ydi o'n wir? Wir yr? Ym meddwl plentyn, dyw hi ddim yn amlwg ar unwaith nad ydi *Spiderman* ac *Ironman* a'r *Ninja Turtles* yn perthyn i'r byd a'r bywyd go iawn. Ond dydyn nhw'n hollbresennol ym myd plant bach heddiw, ar sgrin ac mewn llyfr ac yn deganau o bob math? Doedd plant y Chwe Degau ddim yn cael yr un drafferth wrth weld *Batman* a *Robin* yn mynd trwy'u campau ar deledu du a gwyn! Ond i blant bach heddiw, mae'r lluniau a'r synau mor realistig nes gwneud iddyn nhw feddwl fod Raffael a'i gyd-grwbanod, ynghyd â *Wonder Woman* a'r *Hulk* a *Captain America*, yn gymeriadau o gig a gwaed. Yn hwyr neu hwyrach, daw'r siom o ddeall nad yw'r arch-arwyr hyn ond creadigaethau dychmygol comics *DC* a *Marvel* a'u tebyg.

Ond beth am y stori a rannwn eto'r Nadolig hwn? Gall plentyn sy'n deall nad ydi straeon *Superman* a'i debyg yn rhan o fywyd go iawn feddwl mewn ffordd debyg am stori gyfarwydd babi bach Bethlem, a dechrau holi, "Ydi'r baban Iesu *go iawn*?" Ai stori wir ynteu ffrwyth dychymyg a deunydd difyrrwch ydi ei stori yntau? I lawer, wrth gwrs, yn oedolion a phlant, nid yw Stori'r Geni'n ddim ond hen, hen stori brydferth a chyfareddol yr Eglwys Gristnogol, a ailadroddwyd dros ganrifoedd meithion. A chaiff y stori ei hadrodd eleni eto. Daw'r baban i'w breseb o'r newydd a chaiff angylion a bugeiliaid a doethion eu dogn blynyddol o sylw. A diolch am hynny. Oherwydd mae yma fwy na stori sydd werth ei hadrodd; dyma stori y mae'n rhaid i'r byd wrthi.

A rhannu'r stori a wnawn ni'r Nadolig hwn: stori geni plentyn Mair. Ei rhannu, rhag iddi fynd yn angof yng nghanol rhialtwch yr Ŵyl a rhag iddi fynd yn ysglyfaeth i'r duedd gynyddol i ysgaru'r Iesu oddi wrth yr Ŵyl arbennig hon. Ei rhannu, er mwyn i genhedlaeth newydd glywed am eni'r Iesu y mae miliynau o bobl dros y cenedlaethau wedi ei gofleidio a'i garu a'i ganlyn. Ia, rhannwn y stori; soniwn am Fair a Joseff a'r amrywiol gymeriadau; a chyhoeddwn eni'r plentyn rhyfeddol hwn.

Ac wrth ei hadrodd, mynnwn bwysleisio gwirionedd y stori. Fe aned Iesu; ym Methlem; go iawn! Nid ffuglen mo'r stori. Nid ffrwyth dychymyg dynol mohoni, ond cyflawniad bwriad a threfn ddwyfol. Fe aned Iesu am fod Duw wedi penderfynu hynny. Cyhoeddwn y Nadolig hwn eto fod Duw ei hun wedi dod i'n byd yn y baban bach hwn. Nid stori wneud; nid myth; nid delwedd; ond stori wir am enedigaeth real a ddigwyddodd un waith ar lwyfan hanes.

Stori go iawn; genedigaeth go iawn; a baban go iawn yn dod yn achubwr go iawn i fyd go iawn. A'r cyfan am ein bod ni oll yn bobl go iawn sydd mewn angen go iawn am faddeuant go iawn am bechodau go iawn yn erbyn Duw go iawn.

Ac am fod yr Iesu hwn yn obaith ac yn fywyd i bwy bynnag sy'n ei arddel yn ddyn ac yn Dduw go iawn, dymunaf i bawb ohonoch Nadolig Dedwydd a Llawen.


STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com


# Nyth y Gân

### MACHLUD

O, am Iecyn i ymlacio, â'r haul
Mor hwyr yn machludo;
O tanodd mae'r wlad heno
Yn aur yn ei derfyn o.



Machlud dros Lynnau Mymbyr

### DAEAR LLWYNOG

Rhyw ogof hir, garegog yw'r ddaear
A ddaw yn sefydlog;
Mae byd a bywyd bywiog
Yno'n glyd yn nwfn y glog.

### GENWAIR Y CHWARELWR

'Greenheart' oedd enw'r enwair
A grogai yn y sied;
Am hir bu yn ei naddu'n
Ei drowsus melfaréd.

Mor bwyllog ac mor gywrain
Bu ef wrth drin y pren,
O drwch ei fôn fel dynnai
Un siapus, main ei ben.

Ei daid a'i dysgodd hefyd
I osod llygaid bach
Ar hyd y pren yn daclus
Heb fawr o olion strach.

Tri darn a drodd yn enwair
Dan ddwylo'r crefftus ŵr,
A buont yno'n plygu
Uwchben byrlymus ddŵr.

### AFON GASEG

Sŵn yr afon sy'n rhyfedd, hi reda
Drwy'r adeg o'r Garnedd;
Tra'n mynd i'r môr i orwedd
Yma'n awr mae hi mewn hedd.

**Dafydd Morris**

# Bowlio efo Bys a Bawd

Gyda'r lawnt fowlio ar gau dros y gaeaf a gwaith cynnal a chadw'n digwydd arni, mae bowlwyr eiddgar y fro yn ysu am gael chwarae gemau cystadleuol. Felly, mae'r cyn-bostmon, Heddwyn Morris, wedi gwneud trefniadau i'r chwaraewyr hŷn deithio draw i Brestatyn i gael chwarae dan do bob hyn a hyn.

Yno, yng ngêm gyntaf y gaeaf, aeth wyth o chwaraewyr i ymrafael am y clod o gael curo eu gwrthwynebwyr. Rhannwyd y criw yn griwiau o bedwar gyda Maldwyn Pritchard yn chwarae gyda John Baston yn erbyn Alun Jones (Barbar) a'i bartner Derfel Roberts. Sylweddolodd Alun yn fuan ei fod o a'i bartner yn wynebu brwydr galed gan fod Maldwyn a John yn 'boeth' ys dywedir. Nid oedd y gwroniaid o Dalybont a Hen Dyrpeg am ddangos unrhyw dosturi i'w gwrthwynebwyr o Nantgraen a Charneddi a bu iddyn nhw drechu eu gwrthwynebwyr yn drwm.

**Diffyg Cydymdeimlad**

Meddai John Baston, "Doedden ni ddim am adael i Alun gael unrhyw gyfle ac mi ddywedais wrth Maldwyn – paid ag arddangos unrhyw feddalwch teimlad dros Barbar, achos dydy'r ffaith nad ydy o erioed wedi chwarae o'r blaen ddim yn cyfri' o gwbl."

"Trechaf treisied ydy hi mewn cystadleuaeth," meddai Maldwyn, gan grechwenu'n sadistig ar y Barbar digalon. Er trymed eu colled, roedd Alun a'i gydymaith blinedig yn honni eu bod wedi mwynhau'r profiad o chwarae yn neuadd dan do fawr Prestatyn ac yn addo dod yn ôl i ddial eu cam.

**Y Postmon yn cludo'r wobr gartref**

Cynhwysai'r tîm arall yr enwog George Owen ac Alan Griffiths (Pops). Cawson nhw eu tynnu allan o'r het i chwarae yn erbyn Heddwyn Morris (y Postmon) o Faes Bleddyn a Steve Sherrington o Dregarth… Er gwaethaf profiad a dycnwch George ac Alan, llwyddasant i golli'n enbyd yn erbyn y llythyrgludydd cyfrwys a Steve y newyddian. Fel y dywedodd Heddwyn, "Er 'mod i wedi cael trafferth i gael y "pês" yn iawn i gychwyn mi lwyddais i oresgyn pob rhwystr…"

**Natur hamddenol yn tycio dim**

Fel y gŵyr pawb mae George yn chwaraewr dygn sydd wedi profi ei fedr yn y gôl mewn gemau pêl-droed ac mewn gornestau anodd ar faes golff enwog Bangor Fawr yn Arfon. Fodd bynnag, doedd natur amyneddgar a hamddenol y gwron o Sling a Bangor ddim yn effeithiol yn erbyn chwaraewr fel y cyn-bostmon.

Rhy gryf oedd gwendid Alan y cyn -hwarelwr. Un wedi arfer trafod cerrig mawr trwm yn Chwarel y Cae ydy o ac mae bod yn dringar ar lawr mor llyfn â Neuadd Fowlio Prestatyn yn broblem i'r gŵr o Rachub.

Ar y llaw arall, arian byw o berfformiwr ydy Heddwyn Morris a gall droi perfformiad cyffredin yn orechestwaith anghymarol pan fo galw am hynny.

"Mae o fel pianydd medrus yn tynnu nodau tlws a phersain allan efo'i fysedd," meddai George, "a'r cyfan allai Pops a fi wneud oedd syllu'n llawn edmygedd ar ddawn fawr yn ymagor fel blodyn enfawr o'n blaenau."

Mwy o ornestau glan y môr i ddod eto…!



John Baston - 'Dyn didostur…'



Alun Barbar - yn ddwys ar ôl y grasfa.



Heddwyn Morris - "Fel arian byw…"



George Owen - "Gŵr hamddenol…"


HYWELWILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237

Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456

Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092

Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140

Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967